Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Diweddariad ar Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Hydref i Rhagfyr 2021

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y cyngor yn erbyn ei flaenoriaethau a meysydd llywodraethu rhwng Hydref i Ragfyr 2021, gan gynnwys ein hegwyddor Datblygiad Cynaliadwy, y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r sefyllfa | 4 |
| Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion | 6 |
| Lles a Chydraddoldeb | 10 |
| Clymu Cymunedau: Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da | 13 |
| Lles a Chydraddoldeb | 18 |
| Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid | 21 |
| Lles a Chydraddoldeb | 26 |
| Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd | 30 |
| Lles a Chydraddoldeb | 35 |
| Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny | 41 |
| Lles a Chydraddoldeb | 46 |
| Iechyd Corfforaethol: Mae'r cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol | 51 |
| Camau Gwella | 76 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 77 |

## Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Trwy E-BOST:** strategicplanningteam@denbighshire.gov.uk

**Dros y FFÔN:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r POST:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,

Cyngor Sir Ddinbych,

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

### I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Sgwrs y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o’r sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail eu statws.

**Tai:** Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Da

**Clymu Cymunedau:** Mae cymunedau wedi’u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

**Cymunedau Cryf:** Mae’r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Da

**Yr Amgylchedd:** Deniadol ac wedi’i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Rhagorol

**Pobl Ifanc:** Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

**Iechyd Corfforaethol:** Mae’r cyngor yn effeithlon, wedi’i reoli’n dda ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Da

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull diofyn o ran gosod trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (perfformiad gorau) o wybodaeth a ellir ei gymharu'n genedlaethol fel y pwynt lle ystyrir fod y perfformiad yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Ardderchog', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

# Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Dim ond dau linyn mesur sydd â data newydd i'w cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2021, roedd 2,378 o bobl ar restr aros Un Llwybr Mynediad at Dai, sy'n gynnydd bychan o'r cyfnod diwethaf, Gorffennaf i Fedi (2,283). Rhagwelir adroddiad terfynol yn dilyn adolygiad o Un Llwybr Mynediad at Dai yn fuan, a fydd yn rhoi eglurhad pellach o'r cynnydd o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig.

Mae ein hail linyn mesur Un Llwybr Mynediad at Dai yn ystyried y nifer o bobl sydd wedi cael eu cartrefu o'r gofrestr i eiddo stoc y cyngor neu eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Sir Ddinbych. Ar gyfer y cyfnod hwn, Hydref i Ragfyr, cafodd 56 o bobl eu cartrefu, gan ddod â'r cyfanswm blynyddol i 209 hyd yn hyn.

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect

### Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych

Mae oedi pellach wedi bod gyda dyddiad trosglwyddo adeilad Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych i Grŵp Cynefin. Bydd hyn yn achosi oedi ar gyfer dechrau'r contract gofal. Hefyd wrth gwrs, mae problemau recriwtio parhaus yn y sector, ac nid yw Bloc C wedi gallu recriwtio digon o staff ar hyn o bryd i ddechrau'r contract llawn fel y cytunwyd.

### Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun

Mae cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun wedi cael ei oedi'n sylweddol, ond mae prydles tymor byr wedi cael ei gytuno ac mae gwaith dymchwel wedi dechrau ar y safle. Mae'r ymarfer caffael ar gyfer contractwr wedi cael ei ailadrodd yn dilyn materion gyda'r fanyleb uchel. Gobeithio y bydd Grŵp Cynefin yn cadarnhau'r ymgeisydd llwyddiannus yn fuan.

## Yn profi rhwystrau: Tai Cyngor Ychwanegol

Mae ffydd o ran cyflawni datblygiadau tai cyngor ychwanegol wedi gwella wrth i gynnydd ddigwydd ar nifer o safleoedd, megis:

- Cwblhau gwaith dymchwel hen siop Next yn y Rhyl.
- Cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer addasu hen Dai Amlfeddiannaeth yn 45 i 49 Stryd y Baddon, y Rhyl i randai ar gyfer Rhent Canolradd.
- Cymeradwyodd y Cabinet y dyfarniad contract ar gyfer adeiladu'r rhandai ar dir oddi ar The Dell ym Mhrestatyn.
- Sgorio tendrau ar gyfer y gwaith i addasu Llys Anwyl yn y Rhyl ac i ailddatblygu safle'r hen lyfrgell ym Mhrestatyn.
- Cwblhau proses prynu dau hen dŷ cyngor yn y Rhyl ac un yn Rhuddlan.
- Derbyn cynigion ar gyfer prynu pedwar hen dŷ cyngor yn y Rhyl.

Mae hyder y bydd y rhaglen yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus er gwaethaf y pandemig, ond bydd yr amserlen yn rhedeg yn hwyr.

## Ar y targed: Tai Fforddiadwy

Mae darpariaeth o'n targed Cynllun Corfforaethol ar gyfer 260 cartref fforddiadwy ychwanegol wedi ei gyflawni ac wedi cynyddu gan fod 364 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi dod ymlaen ers 2017.

Mae'r cynllun tai fforddiadwy 100% ar safle Plas Deva yng Nghallt Melyd gan Adra yn mynd rhagddo. Mae mwyafrif o anheddau Rhentu i Brynu a Rhent Canolradd bellach wedi'u hadeiladu, ac mae ymgeiswyr wedi cael eu gwahodd i wneud cais am yr anheddau drwy wefan Tai Teg. Yr elfen tai cymdeithasol y safle yw cam olaf y datblygiad a disgwylir ei gwblhau erbyn Mawrth 2022.

Mae'r weithred drosglwyddo rhwng Clwyd Alyn a Chyngor Sir Ddinbych dros fynediad y briffordd i'r safle Glasdir yn Rhuthun wedi'i gwblhau ac mae Clwyd Alyn bellach yn gallu tynnu'r arian Grant Tai Cymdeithasol sydd wedi'i ddyrannu i'r safle i lawr.

Yn olaf, mae Tai First Choice wedi gallu cael eiddo a all ei drosi'n addas ar gyfer dinesydd blaenoriaeth ar y Rhestr Tai Arbenigol ym Mhrestatyn. Disgwylir i'r addasiadau ddechrau'n

gynnar fis Rhagfyr, a disgwylir i'r eiddo gael ei gwblhau a'i drosglwyddo i'r teulu erbyn diwedd Mawrth 2022.

### Ar y targed: Defnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth 42 o eiddo Dosbarth C hirdymor yn ôl i ddefnydd. Gall berchnogion tai gwag yn Sir Ddinbych gymryd mantais o'r gwasanaeth cydweddu am ddim gyda datblygwyr posibl sy'n barod i gymryd cyfleoedd newydd ymlaen. Mae datganiadau i'r wasg wedi cael eu gwneud yn ddiweddar i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, ac i geisio defnyddio cartrefi gwag unwaith eto, drwy amlygu rhai o fanteision gwerthu eiddo drwy'r cynllun hwn. Er enghraifft, gall berchnogion eiddo gwag arbed arian ar ffioedd gwerthwyr tai a Threth y Cyngor os yw'r eiddo wedi bod yn wag am fwy na chwe mis, yn ogystal â chostau cynnal a chadw parhaus yr eiddo.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2021

| **Llinyn Mesur** | **2019 i 2020** | **2020 i 2021** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl a oedd ar y Gofrestr Anghenion Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth sydd wedi sicrhau tai â chymorth - **Wedi'i feincnodi'r lleol** | 9 | 5 | Derbyniol |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd | 10 | 14 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |
| Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 242 | 435 | Rhagorol |
| Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd (hen ddiffiniad) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 179 | 184 | Rhagorol |
| Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 810 | 415 | Da |

| Llinyn Mesur | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 139 | 154 | Rhagorol |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 57 | 52.3 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 30 | 30.7 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

**Arolwg Rhanddeiliaid 2018 i 2022**

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|
| Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 42 | 30 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon â'r safon tai yn eu hardaloedd hwy – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 52 | 40 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

Ni adroddir ar ein llinyn mesur ynghylch y Cyngor yn cefnogi mwy o Dai Gofal Ychwanegol hyd oni chwblheir y cynlluniau dan sylw.

### Llinynnau mesur chwarterol neu ddwyflynyddol

| **Llinyn Mesur** | **Chwarter 3 2020 i 2021** | **Chwarter 4 2020 i 2021** | **Chwarter 1 2021 i 2022** | **Chwarter 2 2021 i 2022** | **Chwarter 3 2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ar restr aros yr Un Llwybr Mynediad at Dai – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 1,937 | 2,139 | 2,297 | 2,283 | 2,378 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Nifer cronnus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr yr Un Llwybr Mynediad at Dai | 237 | 328 | 67 | 153 | 209 | Amherthnasol Cyfrif yn unig |

## Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Llesiant Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid** amgylcheddol, **iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus**, a Chymru sy'n **gyfrifol ar lefel fyd-eang** gyda **diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai

O ganlyniad i adolygiad Archwilio Mewnol o ddarpariaeth llety ar gyfer y digartref ym Mawrth 2020, cyflwynwyd gwasanaeth amlddisgyblaethol yn Ebrill 2021. Mae adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu ar Bartneriaethau yn Rhagfyr 2021 yn disgrifio gweithrediad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth newydd, a dull traws-wasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth mewn perthynas â digartrefedd a thai. Roedd adnoddau cynyddol yn golygu bod gan y tîm eu cyfranogwyr iechyd meddwl eu hunain, cwnselydd, gweithwyr cymdeithasol a chyfranogwyr cefnogi pobl ddigartref i ddarparu cefnogaeth fwy cyfannol. Mae’r gwasanaeth hefyd yn chwilio i benodi gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cam-drin sylweddau o’r bwrdd iechyd i gwblhau’r tîm.

Mae defnyddio’r dull **cydweithredol** ac **integredig** hwn yn galluogi’r gwasanaeth i gynllunio ar gyfer yr **hirdymor** i **atal** a mynd i’r afael â digartrefedd. Bydd hyn o fantais benodol i’r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

## Datblygiad Cartrefi Cymdeithasol Prestatyn

Mae’r Cabinet wedi cytuno i benodi RL Davies & Sons Limited i ddechrau gwaith adeiladu ar 15 o randai’r cyngor ar gyfer rhent cymdeithasol yn The Dell ym Mhrestatyn. Bydd pum rhandy sydd wedi’u dylunio’n benodol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn yn cael eu hadeiladu ar y llawr gwaelod, ac ar y lloriau uwch bydd cyfanswm o ddeg rhandy, a fydd yn hygyrch gan lifft, ac wedi’u haddasu ar gyfer tenantiaid ag anawsterau symud. Bydd saith rhandy un ystafell wely ac wyth fflat dwy ystafell wely yn y bloc.  Bydd y rhandai’n gweithredu'n garbon isel, trwy gynnwys ynni adnewyddadwy a thechnolegau gwresogi, a byddant yn helpu i gyflawni Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecoleg Sir Ddinbych. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy osgoi’r defnydd o hydrocarbonau ar gyfer gwresogi gofod a dŵr yn y datblygiad.

Mae’r datblygiad yn adlewyrchu pwysigrwydd o gael strwythurau hirdymor, cynaliadwy ar gael ar gyfer yr henoed a’r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. Mae’r penderfyniad yn cefnogi ein huchelgais i sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion, yn arbennig y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir megis **anabledd ac oedran**, a’r rhai sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.** Mae hefyd yn cyfrannu tuag at gyflawni’r Strategaeth Tai a Digartrefedd gan alluogi gwaith adeiladu

cartrefi hygyrch ar gyfer rheng gymdeithasol, gan **gydweithio** gyda datblygwyr lleol i wneud hyn yn bosibl. Yn olaf, mae'r prosiect yn adlewyrchu ein hymrwymiad i leihau ein hôl-troed carbon ac **atal** niwed pellach i'n hamgylchedd.

### Ailddatblygu Llyfrgell Prestatyn

Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Cabinet benodiad contractwr i ailddatblygu hen Lyfrgell Prestatyn. Bydd hen adeilad y llyfrgell yn cael ei ddymchwel er mwyn caniatáu i 14 o randai hygyrch un ystafell wely gael eu hadeiladu, ar rent cymdeithasol gyda mynediad lifft a 2 uned fasnachol ar lawr gwaelod y safle. Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau i ddarparu mynediad gwell, gofod parcio a man amwynder tu allan i'w rannu gyda phreswylwyr yn fflatiau presennol Llys Bodnant.

Bydd y rhandai newydd hyn yn cael eu darparu mewn **cydweithrediad** â Wynne & Sons Limited, ac unwaith iddynt gael eu cwblhau, byddent o fantais uniongyrchol i nodweddion a ddiogelir, sef **Oedran** ac **Anabledd**. Byddent yn darparu datrysiad tai **hirdymor** sy'n **atal** y safle blaengar hwn yn y dref rhag parhau yn wag, yn ogystal â chynnig manteision i iechyd unigolion drwy ddarparu amwynderau a thai o ansawdd da.

## Clymu Cymunedau: Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae data cymharol Cenedlaethol bellach wedi'i ryddhau ar gyfer cyflwr ffyrdd A, B a C ar gyfer 2019 i 2020 a 2020 i 2021. Drwy gymharu ein perfformiad yn erbyn ein grŵp teulu o awdurdodau gwledig tebyg, roedd cyflwr ffyrdd A yn 2019 i 2020 y 'gorau yn y teulu' ar 3.6% (er bod cyflwr y ffyrdd wedi gwaethygu o 3.4% o'r flwyddyn flaenorol). Yn 2020 i 2021 roedd gwelliant o 3.5%. Fodd bynnag, wrth i berfformiad gan eraill yn y grŵp wella, nid ydym bellach 'y gorau yn y teulu' (Mae Sir Fynwy bellach â 2.7%) nac yn rhagorol, ond mae'n parhau i gael ei ystyried yn berfformiad da yn y grŵp. Mae perfformiad ar gyfer ffyrdd B wedi parhau i fod o dan ganolrif y grŵp am y ddwy flynedd ddiwethaf ar 5.3% a 5% hyd yn hyn. Mae ffyrdd C wedi parhau yn rhagorol ar 8.3% yn 2019 i 2020, ac y 'gorau yn y teulu' ar gyfer 2020 i 2021 ar 7.6%.

Ym mis Ionawr 2022, roedd cwmpas band eang cyflym iawn (>30mbps) yn Sir Ddinbych yn 93.37%, cynnydd bychan o 0.62% ers mis Hydref. Mae gan 4.18% o eiddo fand eang o 10mbps neu is. Roedd hyn yn lleihad o 0.15% ers mis Hydref 2021.

Cafodd adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, a luniwyd gan OfCom, ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021 gan ddatgelu data ar gyfer canran signal symudol 4G ar ffyrdd (gan holl weithredwyr ar holl ffyrdd ABCD). Roedd gan 50.63% o holl ffyrdd gysylltiad 4G. Mae hyn yn cymharu â chysylltiad o 49.2% ym Mai 2021.

Roedd 51% o drosglwyddiadau cyhoeddus gyda'r cyngor wedi'u cyflawni dros y we yn ystod Hydref i Ragfyr 2021, o'i gymharu â chyfanswm y trosglwyddiadau a gyflawnwyd gan ddefnyddio'r holl sianeli mynediad. Mae hyn yn ostyngiad o 3% o ffigwr Gorffennaf i Fedi.

Fe adroddom yn flaenorol fod 79% o ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi yn cael eu gwneud yn ddiogel o fewn yr amser targed yn ystod mis Gorffennaf i Fedi 2021. Mae'r

ffigwr hwn bellach wedi'i gywiro i 64%. Yn ystod Hydref i Ragfyr 2021, roedd 51% o ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi wedi cael eu gwneud yn ddiogel o fewn yr amser targed.

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect

### Yn profi rhwystrau: Band Eang Cyflym Iawn a Rhwydweithiau Symudol

Mae contract ein Swyddog Cefnogi Digidol wedi ei ymestyn am ddwy flynedd arall, wrth iddynt barhau i fod yn brysur yn cefnogi unigolion a busnesau sydd â chysylltiad gwael, gan gynnwys ein staff ein hunain. Hyd yn hyn, mae 147 o unigolion a busnesau wedi cael eu cynghori, ac mae 90 o'r rhain wedi dod o hyd i ddatrysiadau parhaol ar gyfer eu problemau. Mae'r swyddog digidol hefyd yn cynorthwyo 15 o grwpiau, dau sydd wedi arwyddo contractau gyda Openreach ar gyfer gosod Ffibr. Roedd dau arall ar y cam arwyddo contract, ond mae Openreach wedi rhoi holl Bartneriaethau Ffibr Cymunedol i'r neilltu wrth iddynt ail-werthuso eu gwaith uwchraddio a strategaethau eu hunain. Yn benodol, rydym yn dal i aros am ddyfynbris gan Openreach ar gyfer prosiect Nantglyn (a'r pentrefi cyfagos). Mae hyn yn cymryd llawer mwy o amser nag â ragwelwyd, ac mae'n debygol o gael ei oedi ymhellach gan fod rhai eiddo o fewn y dalgylch wedi cael eu huwchraddio drwy ddulliau eraill. Roedd y prosiect i fod i ddod i ben ym Mawrth 2022 a bellach mae ystyriaeth yn cael ei roi i'r ffordd y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio wrth symud ymlaen.

### Ar y targed: Eithrio Digidol

Dechreuodd y rhaglen o uwchraddio a gwella cyfleusterau technoleg i'r cyhoedd yn holl lyfrgelloedd Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2021. Bydd y prosiect yn gweld cyfrifiaduron cyhoeddus newydd yn cael eu gosod, system reoli cyfrifiaduron newydd, argraffu hunanwasanaeth, system archebu ar-lein ac argraffu trwy Wi-Fi.

Fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff Cartrefi Gofal Preswyl ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2021 yn dilyn archwiliad sgiliau. Dechreuodd gweithiwr Dechrau Gwaith newydd o fewn Sir Ddinbych yn Gweithio ym mis Tachwedd 2021 a byddent yn gweithio ar gynnwys cyfweld rhith-wirionedd o fewn ein ffrwd waith 'Diamddiffynedd Economaidd'.

Mae Cyfeillion Digidol Sir Ddinbych yn parhau i ddenu mwy o gleientiaid, er bod nifer y gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn isel. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg er mwyn ceisio denu mwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith ac mae gwefan newydd yn cael ei adeiladu gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, a fydd â gofod dynodedig ar gyfer Cyfeillion Digidol.

### Ar y targed: Isadeiledd ar gyfer Digwyddiadau

Mae telerau ac amodau, proses a system archebu ar gyfer y cynllun llogi offer symudol yn cael eu datblygu. Rydym yn dal i aros am y fan a'r trelar i gefnogi'r cynllun. Rydym yn gobeithio lansio'r cynllun yn yr Haf.

Mae £121,249 wedi cael ei roi i grwpiau gan gynnwys Cynghorau Cymuned, Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol fel rhan o becyn cymorth wedi'i dargedu i wella isadeiledd digwyddiadau yn lleol. Mae'r holl ymgeiswyr wedi cael gwybod os oeddent yn llwyddiannus ai peidio, a bydd gan y prosiectau a gymeradwywyd 24 mis o ddyddiad cymeradwyo, i gyflawni.

Mae ein cyfweliadau a hyrwyddwyr bellach wedi'u cwblhau ac mae adroddiad Ymchwil i'r Farchnad wedi ei lunio a'i rannu gyda'r Cyngor. Rhaid i raglen waith gael ei gynhyrchu yn seiliedig ar yr adroddiad a chaiff ei drafod yn y Bwrdd Prosiect ym Mawrth 2022.

### Brîff Prosiect: Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau

Nid yw achos busnes ar gyfer 'Cynllun Cludiant Cynaliadwy' ar gael eto. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Tachwedd 2021 . Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau mewn perthynas ag isadeiledd gwefru cerbydau trydan, yr angen i gynnwys barn ac anghenion pobl anabl, pwysigrwydd o gysylltu â strategaeth gludiant genedlaethol a rhanbarthol a'r angen i gynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr a chymunedau.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2021

| **Llinyn Mesur** | **2019 i 2020** | **2020 i 2021** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3.6 | 3.5 | Da |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 5.3 | 5 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 8.3 | 7.6 | Rhagorol |
| Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd o fewn y 3 mis diwethaf (Conwy a Sir Ddinbych) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 87.7 | 89.8 | Derbyniol |

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i 2019

| **Llinyn Mesur** | **2014** | **2019** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad at Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) | 14 | 14 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddwyflynyddol

| Llinyn Mesur | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Cysylltiad Cyflym Iawn yn Sir Ddinbych (>30 MBPS) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 91.87 | 92.23 | 92.63 | 92.75 | 93.37 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran yr eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu is - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4.71 | 4.45 | 4.34 | 4.33 | 4.18 | Derbyniol |
| Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob sianel fynediad | 50 | 50 | 56 | 48 | 51 | Derbyniol |
| Canran y signal ffordd 4G symudol (holl weithredwyr) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 49.8 | Dim data<br>Bob chwe mis | 49.2 | Dim data<br>Bob chwe mis | 50.63 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data yn sgil Covid-19 | 87 | 67 | 64 | 51 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **cadernid** amgylcheddol, **ffyniant**, **iechyd**, **cydraddoldeb**, **cydlyniant**, **cyfrifoldeb byd-eang** a **diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y tri mis diwethaf yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Pont Llannerch

Ym mis Rhagfyr 2021, derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer pont newydd a chrynodeb o farn y rhai a gymerodd rhan yn ein hymarfer ymgysylltu. Y brif neges a ddeuai yn ôl o'r ymarfer ymgysylltu oedd y dylid gosod pont newydd yn lle'r bont a gwneud hynny cyn gynted â phosibl ac mae'r ymarfer hefyd wedi darparu tystiolaeth o gefnogaeth gymunedol sylweddol i gryfhau'r achos busnes. Roedd y Cabinet yn cydnabod gwerth Pont Llannerch i gymunedau lleol a chadarnhaodd ei gefnogaeth ar gyfer yr egwyddor o osod pont newydd, yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyllid allanol.

Bydd unrhyw brosiect i osod pont newydd yn defnyddio'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu gynaliadwy, gan edrych ar ddatrysiad **hirdymor** i **atal** niwed pellach, **integreiddio** a **chydweithio** gyda budd-ddeiliaid a phartneriaid i chwilio am ddatrysiad, wrth **gynnwys** trigolion lleol yn natblygiad unrhyw strwythur newydd. Byddai prosiect o'r fath hefyd yn elwa trigolion lleol sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

## Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

Mae tîm y tu ôl i raglen hyfforddi digidol llyfrgelloedd wedi derbyn gwobr anrhydeddus. Mae rhaglen hyfforddi a datblygu Estyn Allan wedi cael ei chydnabod gan Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth am ei waith arloesol ac i adeiladu hyder yn 2021, a hefyd wedi cael ei gyhoeddi fel Tîm Llyfrgell y Flwyddyn yng Nghymru. Wedi'i ariannu gan grant Cronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru o £169,950, a sicrhawyd gan Gymdeithas Pen Llyfrgellwyr Cymru, aeth Estyn Allan yn fyw ym mis Ionawr 2021 ac mae wedi datblygu 33 o hyfforddeion ar draws y 22 gwasanaeth llyfrgell

cyhoeddus yng Nghymru. Roedd Cymdeithas Pen Llyfrgellwyr Cymru yn teimlo yn sgil effaith pandemig Covid-19, roedd yn hanfodol fod rhaglen hyfforddi a datblygu er mwyn datblygu sgiliau staff llyfrgell ei angen i alluogi llyfrgelloedd i gyrraedd eu potensial o ran ymgysylltu â darllenwyr a defnyddwyr llyfrgell ar-lein.

Mae gwella'r cynnig gwasanaethau digidol yn y sir yn defnyddio'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan edrych ar ddatrysiadau **hirdymor** sy'n **atal** unigrwydd, ynysiad a thlodi data, drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid, wrth **gynnwys** defnyddwyr hefyd. Bydd hyn o hefyd o fantais i'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

### Teithio Llesol

Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau adroddiad diweddaru ym mis Tachwedd 2021 yn adolygu'r cynlluniau teithio llesol Covid-19 a weithredwyd yn Llangollen, Rhuthun a'r Rhyl, a gafodd eu tynnu yn dilyn hynny. Gofynnodd y Pwyllgor i'r cyngor adolygu'r broses a ddefnyddiwyd i weithredu a thynnu holl Gynlluniau Teithio Llesol Covid-19 yn Sir Ddinbych gyda'r golwg o ganfod arferion da a'r gwersi a ddysgwyd a all gael eu defnyddio wrth ddosbarthu ffrydiau cyllido brys tymor byr yn y dyfodol.

Mae **cynnwys** budd-ddeiliaid yn natblygiad ein llwybrau teithio llesol yn allweddol i'w cynaliadwyedd **hirdymor** a bodloni anghenion lles ein trigolion. Bydd cydweithio gyda chymunedau gan gynnwys busnesau a phartneriaid megis Sustrans a Llywodraeth Cymru yn arwain at **integreiddiad** effeithiol o amcanion cenedlaethol a lleol, gan wneud y mwyaf o fuddion prosiect ar gyfer ein cymunedau, gan **atal** ymyrraeth a rhoi budd i iechyd. Gall gynlluniau teithio llesol hefyd elwa'r rhai sydd â nodweddion a ddiogelir sef **anabledd** ac **oed**, gan wella mynediad yn ac o amgylch ein haneddiadau allweddol.

### Am Ddim ar ôl Tri

Mewn ymdrech i gefnogi ein strydoedd mawr lleol cyn y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, roedd meysydd parcio canol tref a oedd yn eiddo i'r cyngor am ddim i'w defnyddio bob dydd o 3pm rhwng Tachwedd 21 a Rhagfyr 31, 2021. Drwy **gynnwys** cymunedau a gwrando ar eu hanghenion, cafodd y fenter boblogaidd hon dros y Nadolig ei groesawu gan drigolion a busnesau, gan annog pobl i siopa'n lleol a gobeithio **atal** diffyg twf ar y

stryd fawr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Roedd hyn hefyd yn cefnogi’r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

## Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd o 19.6% mewn trosedd domestig yn 2021 i 2022 hyd yn hyn. O'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae Sir Ddinbych wedi gweld cynnydd o 17.3% yn nifer y dioddefwyr cyson o drosedd domestig yn ystod 2021 i 2022, gan godi o 434 i 509 erbyn Rhagfyr 2021. Ar y cyfan, mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad o 7.8% mewn dioddefwyr cyson o drais domestig o fis Medi i Ragfyr 2021, o'i gymharu â gostyngiad o 3.8% yn Sir Ddinbych. Mae nifer y troseddwyr cyson o gam-drin domestig yn Sir Ddinbych wedi gostwng 20% o 75 yn Rhagfyr 2020 i 60 yn Rhagfyr 2021. Yng Ngogledd Cymru mae gostyngiad o 24.2% ar y cyfan.

O fewn gwefan Dewis Cymru mae nifer yr adnoddau ar gyfer Sir Ddinbych yn 532 ar ddiwedd Rhagfyr. Mae hyn yn ostyngiad o 5.3% ar y ffigyrau a welwyd ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, a gostyngiad o 14% ar ffigyrau Gorffennaf i Fedi. Ar ddiwedd Rhagfyr 2021, roedd 11,030 o adnoddau ar gyfer Cymru ar Dewis Cymru, a 2,762 ar gyfer Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd 302 o asesiadau gofalwr rhwng Hydref a Rhagfyr. Mae hyn yn ostyngiad o 44% ar yr un cyfnod y llynedd (gostyngiad o 235 o 537). Mae cymorth ar gyfer gofalwyr wedi parhau ac mae cymorth cymunedol wedi bod ar gael os oedd gofalwyr wedi derbyn asesiad ai peidio.

Mae data ar gyfer cyfartaledd yr amser mae oedolion (65 oed a hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl wedi lleihau ychydig o 1,050 (Gorffennaf i Fedi) i 1,044 diwrnod ar gyfer y cyfnod o Hydref i Ragfyr.

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect

### Yn profi rhwystrau: Cyfranogiad i siapio a gwella gwasanaethau

Yn y cyfnod hwn cynhaliodd ONEDAY Limited weithdy ieuenctid, gydag adborth cadarnhaol iawn. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn awyddus iawn i ymgysylltu â'r cyngor ar brosiectau yn y dyfodol. Mae adroddiad gweithgareddau drafft o'r gwaith hwn wedi cael ei dderbyn gan y Tîm Prosiect ar gyfer ystyriaeth. Y gwaith a drefnwyd ar gyfer Ionawr a Mawrth 2022 yw cwblhau ymchwil blwyddyn 3 i lywio'r polisi ymgysylltu newydd. Mae bwriad i gynnal tendr hapfasnachol ar GwerthwchiGymru. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn profi i fod yn anodd ei lliniaru, yn bennaf o ran agweddau i'r prosiect neu i ymgysylltiad gyda'r cyngor yn fwy cyffredinol.

### Yn profi rhwystrau: Cefnogi gofalwyr

Mae'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr yn ei chwe mis olaf ac wedi symud i fusnes fel arfer. Fe wnaeth y tîm prosiect gwrdd ym Medi a chytuno eu bod yn dymuno parhau gyda'r cyfarfodydd a oedd wedi'u trefnu hyd at fis Mawrth 2022 gan barhau i fynd i'r afael â'r heriau a lliniaru unrhyw risgiau. Mae'r rheolwr prosiect yn parhau i gysylltu gyda'r tîm ac yn casglu rhagor o dystiolaeth i lywio'r adroddiad terfynol. Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yr Ymddiriedolaeth Iechyd Genedlaethol, a chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru er mwyn amlygu'r galw digynsail ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n arwain at oedi sylweddol yn y ddarpariaeth gofal a phwysau ar y gwasanaethau brys. Mae gwasanaethau yn gofyn i deuluoedd os allent helpu drwy gefnogi anwyliaid gartref. Mae mwy o angen nac erioed i sicrhau fod gofalwyr di-dâl yn cael eu canfod cyn gynted â phosibl ac mae gwell gwybodaeth a chyngor er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau yn eu rôl gofalu. Mae Gofalwyr Cymru wedi amlygu fod gofalwyr di-dâl yn y drydedd golofn heb ei gydnabod yn iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig.

### Ar y targed: Lleihau Cam-drin Domestig

Mae'r prosiect 'Gweithredu i Leihau Cam-drin Domestig' bellach yn cynnig hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (Grŵp 2) ar gyfer personél sy'n wynebu'r cyhoedd. Roedd 61 o staff wedi derbyn hyn ym mis Tachwedd. Mae Hafan Cymru hefyd wedi hyrwyddo eu gwaith

mewn cyfarfodydd penaethiaid cynradd, gyda chydlynwyr Addysg Personol Cymdeithasol, ac yn parhau i ymgysylltu gydag ysgolion yn Sir Ddinbych ar y testun cam-drin domestig. Mae cofnod i annog cyflenwyr i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig bellach wedi'i gynnwys yn y ddogfen tendr di-graidd y mae cyflenwyr yn ei dderbyn. Roedd ymgyrch cyfathrebu llwyddiannus gyda Hamdden Sir Ddinbych yn amlygu'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd 25, a oedd yn hyrwyddo dileu trais yn erbyn merched.

### Ar y targed: Gweithio at fod yn Gyngor sy'n Deall Dementia

Mae'r prosiect hwn bellach wedi cael ei sefydlu o fewn busnes craidd y cyngor ac ni fydd bellach yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau hyn.

### Ar y targed: Datblygu Cymunedol ar draws y Sir

Mae ein Tîm Datblygu Cymunedol wedi bod yn brysur yn paratoi a rhannu cytundebau grant unigol i'r 14 prosiect a oedd yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau ar gyfer Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Cynhaliodd y tîm sesiwn cwrdd a chyfarch ar-lein ar gyfer darparwyr y prosiectau llwyddiannus, lle amlygwyd pwyntiau allweddol yn y cytundebau grant a rhoddwyd cyfle ar gyfer rhwydweithio.

Lansiwyd Rownd Gyllid Symiau Gohiriedig Mannau Agored 2021 ym mis Tachwedd. Mae £223,000 ar gael ar draws 14 o gymunedau yn Sir Ddinbych ar gyfer dibenion gwella mannau agored.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr Datblygu Busnes ac Economi er mwyn cefnogi ceisiadau o dan raglen Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

| **Llinyn Mesur** | **2018 i 2019** | **2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Canran y bobl sydd wedi adrodd eu bod wedi derbyn y cyngor neu wybodaeth gywir pan oeddent ei angen - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 88 | Dim data<br>Dim arolwg | Derbyniol |

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran y gofalwyr sydd wedi adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u rôl gofalu - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 55 | Dim data<br>Dim arolwg | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y bobl sydd wedi adrodd eu bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am eu gofal a chymorth **- wedi'i feincnodi'n lleol** | 84 | Dim data<br>Dim arolwg | Derbyniol |
| Canran y bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 59 | 63 | Da |
| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 27 | 20 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddwyflynyddol

| Llinyn Mesur | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus (hyd yn hyn yn y flwyddyn) o ddioddefwyr cyson cam-drin domestig gan gynnwys digwyddiadau heb drosedd (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur hyd yn hyn y flwyddyn) | 434 | 555 | 148 | 332 | 509 | Amherthnasol. Cyfrif yn unig |

| Llinyn Mesur | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus (hyd yn hyn yn y flwyddyn) o droseddwyr cyson o gam-drin domestig (3 neu fwy mewn 12 mis) | 75 | 108 | 18 | 35 | 60 | Amherthnasol. Cyfrif yn unig |
| Nifer yr adnoddau byw ar Blatfform Dewis Cymru - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 562 | 623 | 565 | 620 | 532 | Derbyniol |
| Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn | 537 | 878 | 114 | 221 | 302 | Amherthnasol. Cyfrif yn unig |

| Llinyn Mesur | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd yr amser (mesurir mewn dyddiau) mae oedolion (65 oed a hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 1,046 | 1,053 | 1,053 | 1,050 | 1,044 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant cyfrifoldeb byd-eang** a **diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd o Hydref i Ragfyr yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Dod Ynghyd

Ym mis Rhagfyr roedd y cyngor yn llwyddiannus gyda chais i gronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cysylltu Cymunedau Llywodraeth Cymru. Rydym yn galw hon yn gronfa 'Dod Ynghyd'. Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y cyngor, Datblygu Cymunedau, Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad eisoes wedi derbyn ceisiadau am gymorth ar gyfer ystod o weithgareddau ac ymyraethau a fydd yn helpu trigolion i ail-gysylltu gyda ffrindiau, teuluoedd a'r rhai gyda diddordebau a rennir.

Trwy **integreiddio** a **chydweithio**, mae'r fenter hon yn elwa nodweddion a ddiogelir sef **Oedran** ac **Anabledd** a'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn uniongyrchol. Mae'n annog **cyfranogiad** a gobeithio bydd yn meithrin syniadau newydd er

mwyn lleihau unigrwydd, gwella iechyd, **atal** niwed a bodloni anghenion sydd heb eu gwireddu yn yr **hirdymor.**

### Meifod

Ym mis Tachwedd, cytunodd Cabinet Sir Ddinbych yn unfrydol i ailagor gwasanaeth gweithgynhyrchu dodrefn gardd nid er elw, sy'n darparu cyfleoedd gwaith i bobl a gefnogir gan wasanaeth anabledd dysgu'r cyngor. Mae'r ganolfan wedi bod ar gau ers mis Mawrth 2020, ond bydd yn ailagor ar ôl i waith cynnal a chadw gael ei gwblhau. Clywodd y Cynghorwyr sut fydd buddsoddiad ychwanegol yn gwella'r ganolfan unwaith fydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a grŵp tasg a gorffen y cyngor wedi'i gasglu. Mae'r cynlluniau yn cynnwys cynnig mwy o hyfforddiant ar ystod eang o sgiliau.

Mae cymeradwyaeth yn golygu y gallwn barhau i **gynnwys** a chefnogi pobl gyda nodweddion a ddiogelir megis **Anabledd, Oedran,** neu rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**, gyda'r lefel o gymorth sydd ei angen i'w helpu i fyw bywydau annibynnol, gan **atal** unrhyw niwed yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad hwn yn llywio cynlluniau ar gyfer darpariaeth gwasanaeth **hirdymor** yn y dyfodol, ac yn dangos ein hymrwymiad i **gydweithio** ac mewn modd **integredig.**

### Llyfrgelloedd yn Cefnogi Cymunedau

Yr wythnos gyntaf ym mis Hydref roedd hi'n Wythnos y Llyfrgelloedd, dathliad blynyddol o'r holl bethau sydd gan lyfrgelloedd i'w cynnig. Y thema eleni oedd 'Gweithredu a Newid Bywydau', gan ddathlu rôl ganolog y mae llyfrgelloedd yn ei chwarae yn eu cymunedau fel gyrrwr ar gyfer cynhwysiant, cynaliadwyedd, symudedd cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Gwahoddodd y llyfrgelloedd aelodau o'r gymuned i ddysgu sut oedd darllen wedi cael effaith ar eu bywydau. Ewch i dudalennau gwe'r llyfrgell i gael mwy o wybodaeth ac i ymuno – Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y lyfrygelloedd.

Mae ein llyfrgelloedd yn ganolfannau hanfodol o fewn ein cymunedau, gan elwa'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn uniongyrchol, gan gynnig datrysiadau **hirdymor** sy'n **atal** unigrwydd, allgau a thlodi gwybodaeth, drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid, wrth **gynnwys** defnyddwyr.

### Gwasanaeth Asesu Cymorth Cof Rhanbarthol

Roedd Gogledd Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol a chylchol o £672,000 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu dull rhanbarthol gwell i gefnogi unigolion oedd â phroblemau / pryderon cof neu ddementia ar y camau cyn asesu ac ar ôl diagnosis. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, cytunodd y Cabinet y byddai'r Cyngor yn gweithredu fel comisiynydd arweiniol ar ran y Tîm Cydweithio Rhanbarthol ar wahoddiad i dendro ar gyfer Gwasanaeth Asesu Cymorth Cof Rhanbarthol. Gyda'r potensial am hyd at £3.36 miliwn dros 5 mlynedd, byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithrediad Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru.

Drwy **integreiddio** a **chydweithio** gyda phartneriaid, bydd y gwasanaeth yn cefnogi nodweddion a ddiogelir, sef **Oedran ac Anabledd**, bydd yn annog **cyfranogiad** ac yn dod â chymorth newydd i wella iechyd ar gyfer y rhai sy'n byw â dementia, **atal** niwed a bodloni anghenion heb eu gwireddu yn yr **hirdymor.**

### Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf

Agorodd ceisiadau ar gyfer cynllun cymorth tanwydd y gaeaf i breswylwyr Sir Ddinbych ar 13 Rhagfyr 2021. Bydd y cyngor yn gweinyddu Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfle i aelwydydd cymwys hawlio taliad o £200 tuag at dalu biliau tanwydd gaeaf. Mae'r cynllun ar agor i aelwydydd lle mae un aelod yn derbyn Cymorth Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol neu Gredyd Treth Gwaith.

Gan **integreiddio** ein dyhead cydfuddiannol i **atal** caledi, yn y tymor byr o leiaf, mae'r fenter **gydweithredol** hon rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyngor yn elwa'r rhai sy'n byw o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn uniongyrchol. Yn sgil natur y cymhwysedd ar gyfer y cyllid hwn, dylai hyn gefnogi pobl gyda nifer o nodweddion a ddiogelir, megis **oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil** (gan gefnogi gofalwyr di-dâl sy'n gofalu am aelodau'r teulu yn benodol).

### Safonau Masnach

Mae swyddogion safonau masnach yr awdurdod lleol wedi uno â busnesau argraffu sy'n cynhyrchu taflenni gwybodaeth a phamffledi a ddefnyddir gan fasnachwyr, i hyrwyddo'r

gwasanaethau ar y stepen drws. Nod yr ymgysylltiad ag argraffwyr ar draws y rhanbarth yw tynnu sylw at y perygl i ddefnyddwyr, cynghori busnesau a'u hannog i gydymffurfio ac mae'n gyfle i ostwng nifer y taflenni dienw nad oes modd eu holrhain a ddosberthir mewn cymunedau lleol. Yn aml iawn mae taflenni gardiau A5 sy'n hysbysebu gwasanaethau garddio neu drwsio toeau gyda chyfeiriadau amlwg at 'ddisgownt i bensiynwyr', 'dim gwaith yn rhy fawr na rhy fach' a 'chyfnodau callio' (cooling off periods).

Yn aml mae tystiolaeth gan ddioddefwyr troseddau ar garreg y drws yn dangos bod y troseddwyr yn ymddangos yn gredadwy ac yn broffesiynol wrth eu gwaith.  Yn aml maent yn targedu ardaloedd preswyl trwy ddosbarthu taflenni cyn galw yn ddi-wahoddiad gyda'r bwriad o dwyllo pobl. Mae rhediadau cynhyrchu mwy yn cael eu darparu yn fasnachol gan fusnesau argraffu ar-lein neu leol. Er bod y dull hwn o hysbysebu yn gyfreithlon, gwelwyd eu bod yn hepgor gwybodaeth statudol am eu busnesau, yn camarwain defnyddwyr ac nad ydynt yn darparu unrhyw ddull o iawndal na gwybodaeth sy'n galluogi swyddogion safonau masnach i ganfod o le maent yn dod.

Amlygwyd y gwaith hwn yn gynnar fis Hydref pan gyhoeddodd Heddlu Gogledd Cymru rybudd am fasnachwyr twyllodrus yn gweithredu yn ardal y Rhyl. Gwelwyd gweithgarwch amheus gyda dieithriaid yn mynd at breswylwyr i weithio ar eu heiddo a chynghorwyd y preswylwyr hynny i adrodd am yr ymddygiad i'r heddlu.

Trwy **gynnwys** busnesau a dioddefwyr y drosedd, ac **integreiddio** gyda Heddlu Gogledd Cymru, mae'r fenter **gydweithredol** hon yn elwa'r rhai â nodweddion a ddiogelir sef **oedran** ac **anabledd** a'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.** Trwy'r gwaith hwn, mae Safonau Masnach hefyd yn ceisio darparu diogelwch **hirdymor** ar gyfer ein cymunedau gan **atal** niwed i'n dinasyddion mwyaf diamddiffyn.

# Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae ein fframwaith mesurau ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ymwneud yn bennaf â data blynyddol, felly ni fydd mwyafrif y mesurau yn cael eu hadrodd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, maen gennym ddata newydd i'w rannu o'n Harolwg Budd-ddeiliaid 2021 lle'r oedd tri mesur yn berthnasol i'r canlyniad hwn, gan gynnwys bodlonrwydd â mannau agored:

- Cefn gwlad - 85% (87% yn 2018)
- Traethau - 69% (70% yn 2018)
- Parciau - 59% (64% yn 2018)

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect

### Yn profi rhwystrau: Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Er bod hyder cyflawni yn y flwyddyn ar gyfer y rhaglen yn profi rhwystrau, yn sgil oedi wrth i'r prosiect symud o gam cysyniad i'r cam datblygu, disgwylir y bydd digon o amser cyn Mawrth 2022 i gwblhau mwyafrif y gweithgareddau a gynllunnir ac i wireddu'r manteision o'r gwanwyn a'r haf.

Mae dadansoddiad cyntaf erioed o gynlluniau gweithredu ar hinsawdd cynghorau lleol yn datgelu mai Sir Ddinbych yw'r unig awdurdod yn y rhanbarth i sgorio uwchben cyfartaledd cenedlaethol Cymru (47% yn erbyn cyfartaledd o 31%), ac yn ail tu ôl i Gyngor Sir Caerdydd (a sgoriodd 70%).

## Ar y targed: Plannu Coed

Bydd gwaith plannu yn cael ei gyflawni rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022, ac yn ystod hyn byddwn yn bodloni ein targed i blannu 18,000 o goed. Ar y pwynt hwn bydd y prosiect penodol hwn yn cau. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn awyddus i greu mwy o goetir yn y sir.

Ym mis Tachwedd 2021, fe lansiom arolwg i geisio barn trigolion o ran creu pedwar safle coetir yn Sir Ddinbych . Mae'r rhain wedi cael eu cynllunio ar gyfer Stryd Llanrhydd a Chae Ddol yn Rhuthun, Maes Esgob yn Nyserth a Maes Gwilym yn y Rhyl. Bydd y prosiect creu coetir yn bwysig er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn Sir Ddinbych a bydd adborth trwy'r arolwg hwn yn bwysig i'n helpu ni fapio dyfodol y safleoedd hyn. Rydym hefyd yn awyddus i glywed os hoffai trigolion gymryd rhan ymhob safle, megis diwrnodau plannu coed ac unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli neu hyfforddi eraill yn y dyfodol.

## Ar y targed: Amddiffyniad Arfordir Dwyrain y Rhyl

Mae gwaith adeiladu cynllun amddiffyn rhag llifogydd Dwyrain y Rhyl yn parhau i fod ar y targed, ac mae gwaith ar y promenâd yn mynd rhagddo yn ôl y cynllun. Mae gwariant ariannol hefyd yn parhau i fod ar y targed gyda 84.7% o'r costau terfynol amcangyfrifedig bellach wedi'i wario. Cynhaliwyd gwaith trosglwyddo rhannol Parthau 2 a 3 gan Balfour Beattie i Sir Ddinbych ym mis Tachwedd. Rhagwelir y bydd y prosiect wedi'i gwblhau'n llawn ym mis Chwefror 2022.

## Ar y targed: Gwella Bioamrywiaeth

Dechreuodd y prosiect Dolydd Blodau Gwyllt yn 2019, yn dilyn datganiad Cyngor Sir Ddinbych o argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Mae bron i 60 o safleoedd gan gynnwys lleiniau priffyrdd, ochrau llwybrau troed, llwybrau beics a glaswelltiroedd amwynder, bellach yn cael eu rheoli i greu dolydd blodau gwyllt ar draws y sir. Mae'r safleoedd hyn, ynghyd â'r 11 o warchodfeydd natur ar ochr y ffordd, yn gyfystyr â 30 o gaeau pêl-droed a reolir fel dolydd blodau gwyllt brodorol. Yn ogystal â diogelu blodau gwyllt, mae'r dolydd hefyd yn rhoi help llaw i bryfaid cynhenid yn yr ardal sirol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae prosiect Dolydd Blodau Gwyllt wedi cofnodi cyfanswm o 268 o rywogaethau gwahanol o flodau gwyllt ar draws y safleoedd. Nodwyd bod bron i chwarter ohonynt yn rhywogaethau prin yn Sir Ddinbych.

## Ar y targed: Coridor Natur

Mae nifer o lwyddiannau wedi cael eu cyflawni o fewn y prosiect yr hydref hwn, sydd yn ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a osodwyd ar gyfer diwedd y prosiect y flwyddyn nesaf. Ar raddfa gynefin fawr mae hyn yn cynnwys cloddio ail rownd o byllau yn yr ardal newydd a borwyd ac a gliriwyd yr haf hwn, ac mae'r gwlyptir bellach wedi dechrau aeddfedu a thyfu i mewn i'r tirlun. Gyda'r glawiad y gaeaf hwn, disgwyliwn i'r safle lenwi a denu nifer o adar hirgoes sydd eisoes wedi dangos diddordeb. Bydd y safle hefyd yn cynorthwyo i reoli llifogydd. Mae'r ymgyrch plannu coed ar gyfer y gaeaf hefyd wedi dechrau, gyda nifer o safleoedd wedi'u neilltuo ar draws ardal y prosiect, gan gynnwys nifer o ysgolion. Mae hyn yn cyfrannu tuag at ddatblygiad coridor gwyrdd ehangach.

Rydym hefyd wedi bod yn actif iawn gydag ymgysylltiad cymunedol yr hydref hwn, gan gynnal gweithdai ar gyfer ysgolion, sesiynau crefft, sesiynau gwirfoddoli a digwyddiadau plannu coed, yn ogystal â sesiynau cerdded wythnosol. Er bod ansicrwydd o ran sefyllfa barhaus Covid-19 a beth allai hyn ei olygu ar gyfer ymgysylltiad cymunedol, mae ein sesiynau yn parhau i fod yn sensitif i'r canllawiau tan i ni glywed yn wahanol.

### Ar y targed: Rheoli Rhostir

Yn ystod Hydref 2021, cafodd 5 hectar o Foel y Faen ei hadu gyda chymysgedd o hadau glaswellt ucheldir. Roedd angen cydweithrediad sylweddol rhwng Sir Ddinbych a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a 100,000 litr o ddŵr a gyfrannwyd gan Ddŵr Hafren Dyfrdwy. Yn ogystal â hynny, hadwyd 5 hectar arall gan ddefnyddio dull hadu confensiynol lle'r oedd y tir yn caniatáu hynny. Mae 1 hectar arall o rug aeddfed wedi ei dorri mewn blociau ar y tir gyferbyn â Chaffi Ponderosa, gan greu bylchau tân dros dro a chyflwyno strwythur oed i'r grug. Mae'r grug sydd wedi'i dorri yn cael ei gasglu a'i ledaenu ar dir nad yw'n adfywio er mwyn lledaenu hadau grug.

Mae gwaith rheoli rhostir ehangach ar fynydd Llantysilio a Rhostir Llandegla yn cael ei drefnu gan y Swyddog Maes Rhostir, sydd wedi'i ariannu gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Gronfa Cadernid Ecosystem Bioamrywiaeth; a gwaith adfer mawndiroedd a ariennir gan y Rhaglen Weithredu Mawndiroedd Cenedlaethol. Mae asesiad risg tanau gwyllt o ardaloedd rhostiroedd yn Sir Ddinbych yn mynd rhagddo, gan ganfod meysydd o risg, pennu rheolaeth a chysylltu gyda ffermwyr a pherchnogion tir.

## Ar y targed: Asedau Byw

Mae ein dealltwriaeth o Asedau Byw Sir Ddinbych bellach yn llawer mwy eglur. Mae gwaith arolygu ac archwilio wedi cael eu cynnal mewn nifer o leoliadau ar draws y sir er mwyn datblygu set ddata yn cynnwys gwybodaeth ar rywogaethau, cyflwr, lleoliad, gofynion rheoli ac ati. Mae'r prosiect ar fin cau, ond bydd gweithgarwch yn parhau fel yr arfer.

## Yn wynebu risg: Cartrefi Cyngor Effeithlon ar Ynni

Ar ddechrau'r Cynllun Corfforaethol hwn, gosododd y prosiect darged uchelgeisiol o 70% o dai cyngor (presennol a'r rhai wedi'u caffael) i gyflawni cyfradd Tystysgrif Perfformiad Ynni o C neu uwch. Rhagwelir y bydd 50% wedi ei gyflawni erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni gwaith mewnol, er bod ymdrechion wedi canolbwyntio ar waith allanol sydd wedi cyfrannu at y targed. Er gwaethaf nifer o heriau mae rhai llwyddiannau sy'n werth eu nodi:

- Cwblhau contract i wella effeithlonrwydd thermal a chyflwyno ynni adnewyddadwy i 55 o gartrefi yng Ngallt Melyd.
- Darparu pympiau gwres ffynhonnell aer mewn 120 o eiddo heb gyflenwad nwy.
- Contract i wella effeithlonrwydd ynni 55 eiddo yn y Rhyl.
- Cyllid Llywodraeth wedi'i sicrhau ar gyfer gwella cartrefi yn Rhuthun a Betws Gwerfil Goch i gyflwyno technolegau gwres adnewyddadwy.

Nid yw effeithlonrwydd yn ein stoc dai yn cyfrif tuag at ein targedau Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn benodol, ond bydd effeithlonrwydd ynni yn parhau i fod yn flaenoriaeth tu hwnt i oes ein Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022. Targed newydd a ragwelir gan Lywodraeth Cymru yw cyfradd EPC o A ar gyfer yr holl stoc dai presennol, a fydd yn peri her sylweddol ar gyfer y cyngor.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2021

| **Llinyn Mesur** | **2019 i 2020** | **2020 i 2021** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm tunelledd carbon sy’n cael ei allyrru drwy staff yn cymudo - **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 1,848 | 1,719 | Da |
| Cyfanswm tunelledd carbon sy’n cael ei allyrru drwy deithio busnes - **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 550 | 126 | Rhagorol |
| Cyfanswm tunelledd carbon sy’n cael ei allyrru drwy gadwyni cyflenwi - **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 22,710 | 22,206 | Da |
| Canran y tir gweithredol a thir sy’n eiddo i’r cyngor yn y categorïau uchaf cyfoethog eu rhywogaethau - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 37.5 | 38.1 | Derbyniol |
| STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 552.35 | 213.00 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran stoc dai’r cyngor presennol neu sy’n cael eu caffael (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) sy’n cyflawni cyfradd EPC (Ynni) o C neu uwch - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 40 | 46 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Y nifer blynyddol o goed sy’n cael eu plannu i gynyddu brigdwf yn y Rhyl a Dinbych - **Wedi’i feincnodi’n lleol** | 4300 | 4400 | Rhagorol |

**Arolwg Preswylwyr 2018 i 2022**

| **Llinyn Mesur** | **2018 i 2019** | **2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Cefn Gwlad - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 87 | 85 | Rhagorol |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Traethau - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 70 | 69 | Da |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Parciau - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 64 | 59 | Derbyniol |

Ni fydd ein llinyn mesur o ran nifer yr eiddo gyda gostyngiad mewn risg o lifogydd (1,000) yn cael ei adrodd tan cwblhau'r cynlluniau llifogydd a ddechreuodd yn 2020.

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddwyflynyddol

Ni fydd ein llinyn mesur ar ganran holl dai cyngor newydd sy'n cyflawni cyfradd EPC (Ynni) A yn cael ei adrodd tan cwblhau'r adeiladau newydd yn 2021 i 2022.

## Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **cadernid amgylcheddol, ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Trydan - Wrth fynd ymlaen

Yn Hydref 2021, sicrhaodd y cyngor gyfanswm o £57,400 o gyllid grant gan Swyddfa Llywodraeth y DU ar gyfer Cerbydau Di-allyriadau a gefnogir gan Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, i gefnogi cyflawni Cynllun Peilot Pwynt Gwefru Cerbydau Trydan yn

Gyhoeddus. Bydd y cynllun peilot hwn yn darparu pwyntiau gwefru cyflym i'r cyhoedd eu defnyddio mewn wyth maes parcio cyhoeddus yn Sir Ddinbych. Mae lleoliadau wedi'u dewis yn defnyddio ystod o feini prawf yn cynnwys cymysgedd o lwybrau allweddol a meysydd parcio yn agos i eiddo preswyl heb fynediad i barcio oddi ar y ffordd. Y nod yw cynnig posibiliadau i bobl newid i gerbydau trydan lle nad oedd mynediad i gyfleuster gwefru yn y gorffennol.  Y bwriad yw eu gosod a'u bod yn weithredol erbyn Gwanwyn 2022.

Mae prosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cynnwys ehangu ar isadeiledd gwefru cerbydau trydan y cyngor a chynyddu'r nifer o gerbydau trydan sydd yn ein fflyd i gyflenwi gwasanaethau'r cyngor. Rydym hefyd yn cynnal cynllun peilot i annog cwmnïau tacsis i ddechrau defnyddio cerbydau trydan, ar ôl cael arian gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r prosiectau **cydweithredol** ac arloesol hyn yn dangos ein dull **hirdymor** i greu amgylchedd iachach, gan **integreiddio** gyda'n huchelgais i **atal** niweidio'r amgylchedd. Mae'r gwaith hwn hefyd yn ymateb i'r hyn mae cymunedau wedi dweud wrthym ni drwy ein hymarferion **ymgysylltu** am yr angen i ehangu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan Sir Ddinbych, er budd twristiaeth yn ogystal â'r amgylchedd. Mae cerbydau trydan yn rhan fawr o'n dyfodol felly mae'r rhain yn gamau pwysig ar gyfer y cyngor, a bydd y gwaith hwn yn darparu data defnyddiol i lywio ehangiad y rhwydwaith yn y dyfodol.

## Pwll newydd ar wlyptir yn Sir Ddinbych

Rydym wedi symud ymlaen gyda gwaith adnewyddu ar gyfer gwlyptir Sir Ddinbych er mwyn helpu i ddiogelu a chefnogi bywyd gwyllt lleol, gan weithio mewn partneriaeth gyda Balfour Beatty i greu nodwedd pwll newydd ym Morfa, gwlyptir 35 erw ym Mhrestatyn. Mae hyn yn cysylltu'n agos i'n gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn y flaenoriaeth hon, gan fod Balfour Beatty, sy'n datblygu'r Cynllun Amddiffyniad Llifogydd Dwyrain y Rhyl, wedi darparu'r gwaith fel rhan o ymrwymiad i ddarparu buddion cymunedol lleol.

Cafodd platfform wylio ei osod yn ddiweddar fel rhan o adfer y gwlyptir ac mae mwy o waith wedi'i gwblhau bellach gan gynnwys creu pwll newydd drwy gloddio mewn rhan o'r gwlyptir, a defnyddio'r pridd i greu arglawdd ar ben hen domen sbwriel. Mae'r gwlyptir hefyd yn gorwedd wrth ymyl cafn Prestatyn ac yn ffurfio ceuffos naturiol ar adegau o law trwm, gan weithredu fel amddiffynfa bwysig rhag llifogydd. Wrth i'r safle ddychwelyd i'w ffurf naturiol, heb yr holl lystyfiant sydd yno ar hyn o bryd, bydd y tir yn medru dal mwy o

ddŵr.  Mae manteision hyn yn cynnwys hybu bioamrywiaeth, planhigion ac adar a chreu atyniad gwlyptir i bobl ymweld.

Mae'r prosiect yn defnyddio'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan edrych i'r **hirdymor** i **atal** difrod i'r amgylchedd a gwella ei ddefnydd.  Darperir y prosiect drwy **integreiddio** ein gwaith gyda phrosiectau eraill a **chydweithio** gyda phartneriaid. Mae'r prosiect wedi ystyried barn trigolion lleol ac yn **cynnwys** gwirfoddolwyr. Mae'n ased naturiol gwych a fydd yn elwa trigolion ac ymwelwyr. Gan ei fod am ddim, mae hefyd yn elwa'r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

### Dôl Blodau Gwyllt Newydd wedi'i greu yn Llanelwy

Mae tîm bioamrywiaeth Sir Ddinbych wedi gweithio dros y misoedd diwethaf i ail-hadu hen dir pori ceffylau yn Llanelwy gyda hadau blodau gwyllt. Casglwyd yr hadau o ddôl lleol ac mae'n cynnwys rhywogaethau megis tegeirian cyffredin, cneuen ddaear a phys y ceirw. Y flwyddyn nesaf bydd yn cael ei dorri'n rheolaidd er mwyn lleihau'r lledaeniad o rywogaethau chwyn, cyn mynd i system o doriadau gwair blynyddol. Bydd mwy o hadau hefyd yn cael cyflwyno er mwyn cynyddu amrywiaeth y ddôl. Mae holl safleoedd blodau gwyllt y Cyngor wedi eu rheoli yn unol â chanllawiau Rheoli Glaswelltir ar Ymyl Ffyrdd Plantlife sy'n golygu bod torri gwair yn y safleoedd hyn wedi'i wahardd rhwng mis Mawrth a mis Awst bob blwyddyn, gan roi digon o amser i'r blodau gwyllt dyfu, blodeuo a hadu. Trwy greu dolydd newydd ar y cyd â'n safleoedd sefydledig ar draws y sir, byddwn yn parhau i ddarparu mwy o fwyd ar gyfer peillwyr a nifer o ffurfiau eraill o fywyd gwyllt.

Mae'r prosiect yn defnyddio'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan edrych i'r **hirdymor** i **atal** difrod i'r amgylchedd a gwella ei ddefnydd.  Darperir y prosiect drwy **integreiddio** ein gwaith gyda phrosiectau eraill a **chydweithio** gyda phartneriaid, a **chynnwys** gwirfoddolwyr i gasglu hadau.

### Amddiffynfeydd Arfordirol Canol y Rhyl

Mae ardal canol y Rhyl (rhwng Splash Point i'r dwyrain a Pharc Drifft i'r gorllewin) ar hyn o bryd yn cael ei warchod gan strwythurau amddiffynfeydd môr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dirywio, ac os na fydd gwaith yn cael ei gynnal, gallent fethu o fewn y 10 i 15 mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd 550 eiddo preswyl a 45 eiddo nad ydynt yn breswyl mewn risg o lifogydd. Pwrpas y cynllun arfaethedig yw ceisio gwella amddiffynfeydd

llifogydd arfordirol yng nghanol y Rhyl er mwyn diogelu cartrefi a busnesau a'r economi dwristiaeth rhag digwyddiadau o lifogydd ac erydu arfordirol i'r dyfodol. Cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus o'r cynigion yn Neuadd y Dref y Rhyl, gydag ymgynghoriad yn rhedeg rhwng Ionawr 12 a Chwefror 9. Os fyddwn yn llwyddiannus gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun, disgwyliwn i'r gwaith adeiladu ddechrau yn yr hydref neu yn y gaeaf 2022 gan gymryd oddeutu dwy flynedd a hanner i'w gwblhau. I gael rhagor o wybodaeth ar y cynllun, ewch i'n gwefan.

Mae'r prosiect yn ceisio **cynnwys** y cyhoedd yn y datblygiad pwysig hwn ar gyfer y Rhyl, gan ein helpu i benderfynu ar ddatrysiad **hirdymor** derbyniol a fydd er boddhad trigolion lleol, wrth ddiwallu'r bygythiad cynyddol mae newid hinsawdd yn ei achosi ac **atal** unrhyw ddifrod i gartrefi a busnesau. Mae'r prosiect hwn yn **integreiddio** ac yn cael ei ddarparu mewn **cydweithrediad** gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid datblygu, Mott MacDonald, a bydd yn elwa ardal o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** sylweddol.

### Tacsi Gwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ddatgarboneiddio'r fflyd tacsi yn gyfan gwbl erbyn 2028 ac rydym ni'n un o'r ychydig o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y peilot.  Bydd yn gweithredu menter profi cyn prynu, gan alluogi gyrwyr tacsis Hacni trwyddedig i brofi cerbyd am ddim am 30 diwrnod, gan gynnwys pwyntiau gwefru trydan am ddim mewn lleoliadau penodol yn Sir Ddinbych, trwydded cerbyd, yswiriant a pholisi torri i lawr. Mae gennym bedwar tacsi Nissan Dynamo E-NV200 sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn i'w defnyddio fel rhan o'r peilot. Bydd y peilot yn dod i ben fis Ionawr, a bydd ein hadroddiad nesaf yn datgelu ein canfyddiadau.

Gan **gydweithio** gyda Llywodraeth Cymru, ac **integreiddio** eu dyhead ar gyfer Cymru, a **chynnwys** gweithredwyr tacsis yn y peilot, bydd hyn yn ein helpu ni i weithio tuag at ddod yn gymdeithas di-garbon net yn yr **hirdymor**, gan **atal** niwed pellach i'r amgylchedd. Bydd y tacsis hygyrch hefyd yn elwa'r rhai gyda nodweddion a ddiogelir sef **Oedran** ac **Anabledd.**

### Mynd i'r afael â llygredd

Mae cynllun peilot mewn ysgol yn y Rhyl i leihau llygredd aer, allyriadau carbon o deithio a gwella diogelwch ar y ffyrdd wedi cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Roedd y prosiect

Strydoedd Ysgol yn golygu cau ffyrdd dros dro tu allan i Ysgol Llywelyn rhwng 8.30am a 9.15am a 2.30pm a 3.30pm. Digwyddodd y cau rhwng Mawrth 22 a 26 ac Ebrill 12 a 16. Mae arolwg a gynhaliwyd ar ymdrechion y prosiect i wella ansawdd aer wrth atal cerbydau rhag aros tu allan i'r ysgol a diogelwch o amgylch y safle, wedi derbyn adborth cadarnhaol. Mae trigolion lleol a rhieni hefyd wedi canmol y cynllun.

Mae gwella mesurau diogelwch o amgylch ysgolion a lleihau allyriadau carbon, yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae hwn yn un ymhlith nifer o brosiectau i gyflawni hyn. Mae'r prosiect hwn yn dangos wrth **gydweithio** gydag ysgolion, gallwn **integreiddio** mentrau sy'n **cynnwys** trigolion, rhieni a phlant, nid yn unig i **atal** niwed, ond hefyd i ddiogelu'r amgylchedd yn yr **hirdymor.** Mae'r prosiect hwn hefyd yn manteisio yn uniongyrchol ar nodweddion a ddiogelir sef **Oedran.**

### Arwydd twristiaeth i hyrwyddo Dyffryn Clwyd

Bydd gwaith i osod arwydd twristiaeth frown ddwyieithog ar yr A55 i hyrwyddo Dyffryn Clwyd yn digwydd y flwyddyn nesaf. Bydd yr arwydd yn cynnwys Castell Dinbych, Castell Rhuddlan a Chadeirlan Llanelwy, oll o dan y pennawd Dyffryn Clwyd. Bydd arwyddion brown ychwanegol hefyd yn cael eu codi yn Ninbych, Rhuddlan a Llanelwy i gyfarwyddo traffig i'r atyniadau hyn.

Ariennir yr arwyddion mewn **cydweithrediad** â Chyngor Sir Ddinbych, Cyngor Dinas Llanelwy, Cyngor Tref Dinbych, Cyngor Tref Rhuddlan, CADW a Chadeirlan Llanelwy. Byddent yn helpu i arddangos tri atyniad gwych yma yn Sir Ddinbych yn yr **hirdymor**, a bydd yn annog mwy o ymwelwyr i ddod i grwydro ein sir hardd. Mae hwn yn rhan o waith ehangach i annog twristiaeth yn yr ardal a fydd yn helpu busnesau Sir Ddinbych a **diogelu** ein heconomi twristiaeth bwysig.

### Diweddariad ar Wastraff ac Ailgylchu

Yn dilyn proses gaffael ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn ei gyfarfod ym mis Hydref, awdurdododd y Cabinet i ddyfarnu contract newydd i reoli Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HRC), cymeradwyo i fabwysiadu Polisi HRC newydd ar y cyd â Chonwy, a chytuno ar amserlen ffioedd newydd ar gyfer 2022 i 2023. Fe wnaeth y cynigydd a ffafriwyd ddangos y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd o'r rhai a dderbyniwyd, a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu gan Gonwy fel yr awdurdod arweiniol.

Ym mis Rhagfyr, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ddiweddariad ar gynnydd y Cyngor i weithredu model gweithredu gwastraff ac ailgylchu newydd. Cyflwynwyd Atodiad 3 yr adroddiad a oedd yn darparu map defnyddiol o'r cerrig milltir allweddol, gyda'r mwyafrif yn parhau ar y trywydd iawn. Mae Cam 1 gwaith paratoi'r pridd ar gyfer depo canolog newydd yn Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, yn mynd rhagddo. Ym mis Hydref, cymeradwyodd y Cabinet ymarfer tendro ar gyfer prif gontractwr i ddarparu Cam 2 yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd. Mae gwaith cynllunio llwybr ar gyfer y gwasanaeth newydd wedi'i gwblhau, gyda phob aelwyd yn derbyn rownd casgliadau ailgylchu wythnosol a gwastraff gweddilliol y dyfodol a bydd y ddau yn digwydd ar yr un diwrnod.

Rydym yn gwybod faint o gerbydau ailgylchu, a pha mor fawr, y mae angen i ni eu prynu ar gyfer y gwasanaeth newydd. Oherwydd y pwysau y mae'r diwydiant gweithgynhyrchu'n ei wynebu o ganlyniad i Covid-19 a Brexit, rydym wedi trefnu  i gaffael y cerbydau hyn yn gynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu danfon mewn pryd. Mae opsiwn i hyd at draean o'r brif fflyd ailgylchu fod yn Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) llwyr drydanol wedi'i gynnwys yn y fanyleb a bydd hyn yn lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth yn arwyddocaol. Rydym yn bwriadu dyfarnu'r contract yn y flwyddyn newydd.

Mae'r cyngor yn dal i ddisgwyl y bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei gyflwyno yn haf 2023. Mae amseriad a dyluniad y gwasanaeth newydd yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i sicrhau ein bod yn gweithredu gwasanaeth gwyrddach sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac a fydd yn gallu diwallu targedau amgylcheddol statudol yn well. Mae hyn yn dangos fod y cyngor yn meddwl yn **hirdymor** am **atal** niwed i'r amgylchedd. Mae'n brosiect enfawr, ac rydym yn **integreiddio a chydweithio** gyda phartneriaid drwy gydol y broses, ac yn **cynnwys** defnyddwyr mewn penderfyniadau allweddol am y newid mawr mewn gwasanaeth.

## Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Nid yw data ar gyfer 2021 i 2022 yn dangos unrhyw newid ar y flwyddyn flaenorol o ran nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg mewn adeiladau sydd yn y categorïau cyflwr ac addasrwydd isaf (C a D) - mae'r rhif wedi aros ar 27 o ysgolion. Bydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif yn lleihau'r ffigwr hwn, ac mae'r Gwasanaeth wedi gosod trothwyon lleol uchelgeisiol lle nad oes yr un ysgol yn cynrychioli perfformiad rhagorol yn y llinyn mesur hwn.

Mae data newydd bellach ar gael o'n Harolwg Budd-ddeiliad 2021. Roedd tri mesur boddhad mewn cysylltiad â'r canlyniad hwn, gan gynnwys:

- Cyfleoedd i bobl ifanc ddechrau eu gyrfa (19%, yn 2018).
- Cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau (26%, ychydig yn is o 28% yn 2018).
- Cyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc (40%, lawr o 50% yn 2018).

Mae ein mesur olaf gyda data newydd yn ymwneud â nifer y bobl 18 i 24 sy'n hawlio budd-daliadau. Yn unol â phatrymau cenedlaethol, mae data ar gyfer Hydref i Ragfyr yn datgelu fod y gostyngiad a welwyd yn flaenorol o ran nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn Sir Ddinbych, wedi dechrau arafu wrth iddo nesáu at lefelau cyn y pandemig (6.5%), gan aros ar 7.1% (i lawr o 7.5% ym Medi). Rydym yn parhau i fod tu ôl i gyfartaledd Cymru sydd bellach yn 5.1%. Ond mae'n werth nodi cyn y pandemig, roedd Sir Ddinbych 2% tu ôl i gyfartaledd Cymru, lle rydym eto rŵan. Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn y DU hefyd yn parhau uwchben cyfartaledd Cymru, bellach yn 5.3%.

Nid oes data wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chyrhaeddiad a phresenoldeb ysgol yn sgil effaith y pandemig.

## Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect

### Yn profi rhwystrau: Moderneiddio Addysg

Mae nifer o adroddiadau terfynu ar gyfer prosiectau Band A yn cael eu datblygu er mwyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fel arall mae darpariaeth yn canolbwyntio ar brosiectau Band B. Mae Wates Construction wedi cael eu penodi fel y prif gontractwr ar gyfer darparu Ysgol Plas Brondyffryn, ac mae cyfarfodydd ymgysylltu â chleientiaid wedi dechrau; mae opsiynau ar gyfer cyfnewid tir arfaethedig ar gyfer Ysgol Pendref yn cael eu hadolygu; ac mae ymarfer saernïaeth allanol yn datblygu opsiynau ar gyfer cynllun Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant.

### Yn profi rhwystrau: Lleoliadau Gofal Plant

Mae'r rhaglen hefyd yn parhau i ddatblygu rhai prosiectau o dan y Grant Cyfalaf Gofal Plant. Bydd gwaith adeiladu ar yr estyniad i Ganolfan y Dderwen yn dechrau'n fuan yn dilyn cadarnhad o gymeradwyaeth dechrau cyn-cynllunio. Mae tendr ar gyfer Ysgol Twm o'r Nant wedi cael ei dderbyn, ond roedd yn uwch na'r gyllideb a ragwelwyd; ac mae'r prosiect yn Ysgol Dewi Sant hefyd wedi gweld cynnydd yn y costau a ragwelwyd. Mae'r ddau brosiect hyn wedi oedi ac yn aros am adolygiad o'r costau.

### Ar y targed: Canolfan Iaith Gymraeg

Mae'r adeilad bellach yn cael ei ddefnyddio'n llawn gyda mwy a mwy o weithgareddau'n cael eu cynnal ar y safle. Mae cyfrifon terfynol yr adeilad wedi cael ei setlo a'r taliadau cadw wedi cael eu rhyddhau i'r contractwyr. Yr unig eitem sy'n weddill yw gweithrediad yn ymwneud â phrydles ar gyfer tenantiaid.

### Yn profi rhwystrau: Prosiect Maeth Ysgolion

Mae'r prosiect yn parhau i brofi rhai rhwystrau o ran amserlennu o amgylch cyfyngiadau a achoswyd gan Covid-19. Mae ein hyfforddiant ychwanegol Dewch i Goginio wedi cael ei ohirio deirgwaith yn sgil achosion cynyddol mewn ysgolion yn y ddau dymor diwethaf. Fodd bynnag, rydym bellach yn gallu symud ymlaen ac yn hyderus y bydd pawb o gyfran Blwyddyn 2 mewn ysgolion wedi mynychu sesiwn cyn Pasg 2022. Mae pum ysgol wedi

cael eu recriwtio ar gyfer Blwyddyn 3 y prosiect, ac mae dau eisoes wedi cwblhau eu hyfforddiant Lefel 2 ac yn disgwyl dyddiad ar gyfer eu diwrnod ychwanegol.

### Yn wynebu risg: Grant Hyfforddiant Gweithwyr

Mae pedwar cais newydd i'r bwrsari wedi cael eu derbyn ers Medi (gan ddod â'r cyfanswm i naw ar hugain). Nid yw unrhyw un o'r ceisiadau newydd wedi cael eu cymeradwyo eto. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Sir Ddinbych yn Gweithio er mwyn ystyried os fyddai rheolaeth y gronfa yn addas yno, fodd bynnag gan ei fod yn dod i ben ym Mawrth, cytunwyd y bydd y Tîm Datblygu Busnes ac Economaidd yn parhau tan ei gau. Yn y cyfamser mae'r cynllun yn parhau i gael ei farchnata'n rhagweithiol ar gyfer cyflogwyr a gweithiwyr.

### Ar y targed: Dechrau Gwaith

Mae cyfanswm o 100 o leoliadau wedi cael eu caffael a'u hysbysebu gan y Tîm Dechrau Gwaith hyd yn hyn. Ar hyn o bryd mae 67% wedi cofrestru ar gyfer y lleoliadau hyn gyda thrigolion Sir Ddinbych yn cael mynediad at leoliadau di-dâl a gyda thâl ar draws ystod eang o wasanaethau'r cyngor a busnesau bach. Hyd yn hyn, mae'r Cynllun wedi darparu cyfradd o 45% o gyfranogwyr yn derbyn cyflogaeth â thâl ar ôl cwblhau eu lleoliad. Mae hyn yn gyflawniad gwych gan mai'r cyfranogwyr ar y cynllun yw'r rhai sydd bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur, ac sy'n wynebu nifer o rwystrau tuag at gyflogaeth.

Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi cytuno ar gyllid i bontio'r bwlch cyllido o Ebrill i Fedi 2022. Bydd adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyllideb ym mis Chwefror 2022 er mwyn amlygu pwysau posibl o Hydref 2022 (yn sgil terfynau amser y Gronfa Ffyniant Gyffredin).

### Ar y targed: Sir Ddinbych yn Gweithio: Barod am Waith

Mae'r prosiect yn bwriadu cynnal digwyddiadau gyrfaoedd ar-lein yn ystod wythnos Mawrth 28 - Ebrill 1. Mae ymgysylltiad a chynllunio ar gyfer y digwyddiadau hyn yn mynd rhagddo gydag ysgolion a chyflogwyr er mwyn sicrhau presenoldeb a chyfranogiad cryf. Bydd y digwyddiadau wedi'u targedu yn bennaf at ddisgyblion blwyddyn 9, ond bydd yn hygyrch i grwpiau blwyddyn ehangach hefyd. Yn dilyn y digwyddiad, cynigir i'r prosiect hwn gael ei gau'n ffurfiol, gan asesu anghenion a dysgeidiaeth er mwyn llywio cynigion posibl yn y dyfodol o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Ar y targed: Gwirfoddoli**

Yn dilyn mabwysiadu'r polisi gwirfoddoli newydd a lansiad tudalen we 'Siop Un Alwad', mae'r cyngor yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli Covid-19. Mae cyfarfodydd hefyd wedi cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn AD. Byddent yn adolygu'r hyn a hysbysebir ac yn gweithio gyda gwasanaethau er mwyn eu hannog i uwchlwytho eu cyfleoedd. Rydym yn dal i obeithio recriwtio cynrychiolwyr gwasanaeth i'r Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Mewnol lle mae bylchau wedi cael eu canfod.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

| **Llinyn Mesur** | **2020 i 2021** | **2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Dim data yn sgil Covid-19 | Dim data yn sgil Covid-19 | Rhagorol (Yn seiliedig ar 2019 i 2020) |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Dim data yn sgil Covid-19 | Dim data yn sgil Covid-19 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella (Yn seiliedig ar 2019 i 2020) |
| Canran y plant 4-5 oed sydd yn pwyso'n iach neu dan bwysau (wedi'i adrodd un flwyddyn ar ei hôl hi) - **wedi'i feincnodi'n Genedlaethol** | 71.8 | Aros am ddata | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdod Lleol - Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru CA4 - **wedi'i feincnodi'n Genedlaethol** | Dim data yn sgil | Dim data yn sgil | Rhagorol (Yn seiliedig ar 2019 i 2020) |

| **Llinyn Mesur** | **2020 i 2021** | **2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| | Covid-19 | Covid-19 | |
| Canran y plant sy’n cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd, yn erbyn y canran a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig ar ddiwedd ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) - **Wedi’i feincnodi’r genedlaethol** | Dim data yn sgil Covid-19 | Dim data yn sgil Covid-19 | Derbyniol<br>(Yn seiliedig ar 2019 i 2020) |
| Nifer yr ysgolion sy’n darparu addysg drwy gategorïau cyflwr ac addasrwydd C a D - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 27 | 27 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y disgyblion (gan ddefnyddio Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol - PASS) sy’n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 87.2 | Dim data<br>Dim arolwg | Da |

**Arolwg Rhanddeiliaid 2018 i 2022**

| **Llinyn Mesur** | **2018 i 2019** | **2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Canran y trigolion sy’n fodlon fod cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 19 | 19 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y trigolion sy’n fodlon fod cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 28 | 26 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

| Llinyn Mesur | 2018 i 2019 | 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran y trigolion sy’n fodlon fod cyfleoedd hamdden sy’n apelio at bobl ifanc - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 50 | 40 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddwyflynyddol

| Llinyn Mesur | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y boblogaeth 18 i 24 oed sy’n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - **wedi’i feincnodi’n genedlaethol** | 11.9 | 12.4 | 10 | 7.5 | 7.1 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Lles a Chydraddoldeb

Mae a wnelo’r flaenoriaeth hon â’r pum ffordd o weithio ac mae’n ategu Nodau Lles Cymru’n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu’r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Cadw pawb yn ddiogel

Roedd tymor yr Hydref yn parhau i fod yn anodd ar gyfer ysgolion. Ym mis Medi gwelwyd mesurau pellach er mwyn rheoli lledaeniad y feirws, ond erbyn Tachwedd roeddem yn ddigon hyderus i fynd yn ôl i’r ymyraethau lefel is. Ym mis Rhagfyr fodd bynnag, gyda lledaeniad cyflym yr amrywiolyn Omicron, gwnaed y penderfyniad i ddod â dysgu wyneb yn wyneb i ben ar 17 Rhagfyr, gyda dysgu o bell yn parhau tan 21 Rhagfyr. Ail-ddechreuodd dysgu wyneb yn wyneb o 10 Ionawr, ond mae lledaeniad cyflym yr

amrywiolyn newydd wedi gwneud Tymor y Gwanwyn yn anodd iawn i ysgolion ei reoli o ran prinder staff a chohortau'n cael eu heffeithio.

Mae **cydweithio** gydag ysgolion ar yr amser hwn yn parhau i fod mor bwysig ag erioed, gan **integreiddio** ein dyhead cyffredin i gadw pawb yn ddiogel ac **atal** unrhyw niwed, yn arbennig i'r rhai mwyaf diamddiffyn (gwyddwn y gall Covid-19 gael effaith hynod o andwyol ar gyfer y rhai sydd ag **Anabledd**, neu o gefndiroedd **Du ac Asiaidd.** Mae'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** hefyd yn fwy tebygol o gyflwyno ag achosion).

## Y Gymraeg mewn Addysg

Yn ystod Hydref i Ragfyr cynhaliodd y cyngor ymgynghoriad ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd ar gyfer 2022 i 2032. Mae'r cynllun drafft yn nodi gweledigaeth y cyngor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â nifer o dargedau a chamau gweithredu, yn seiliedig ar saith canlyniad, gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn addysg dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd y canlyniadau hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cyflwynwyd canlyniad yr ymgynghoriad i'r Cabinet ym mis Rhagfyr, a gymeradwyodd cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith hwn a ddarparwyd **ar y cyd** gyda'n partneriaid, yn cefnogi'r nod ar gyfer Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Rydym wedi ceisio **cynnwys** budd-ddeiliaid trwy gydol datblygiad y cynllun, ac **integreiddio** ein huchelgais a gwaith gyda rhai Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r uchelgais **hirdymor** hwn ar gyfer Cymru. Bydd y gwaith gobeithio'n **atal** unrhyw ddirywiad yn nifer y Siaradwyr Cymraeg yn ein sir, ac yn elwa'n uniongyrchol ar nodweddion a ddiogelir **oedran a hil.**

## Ceidwaid Dyffryn Dyfrdwy

Ym mis Hydref ail-ddechreuodd y cyngor y grŵp Ceidwaid Ifanc Dyffryn Dyfrdwy, wedi'i anelu at bobl ifanc 11-18 oed sydd eisiau dysgu mwy am ein tirlun anhygoel, ymgymryd â thasgau cadwraeth ymarferol, cynnal arolygon bywyd gwyllt a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored llawn hwyl. Mae'r grŵp yn cwrdd unwaith y mis, gyda digwyddiadau rhwng 4 neu 6 awr. Cafodd y digwyddiad cyntaf ei gynnal yng Nghoed Pen y Pigyn, lle cafodd coed conwydd eu tocio i wneud lle ar gyfer derw cynhenid, gyda choginio ar y tân i ddilyn. Hefyd cafodd y grŵp gwmni artist lleol, Jude Wood i greu celf

coetir.  Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â’r grŵp, gysylltu â ros.stockdale@denbighshire.gov.uk.

Dyma fenter wych sy’n **cynnwys** pobl ifanc i **gydweithio** a meddwl yn **hirdymor** am gadwraeth ein hasedau naturiol, ac **integreiddio** gyda’n huchelgais i **atal** niwed i’r amgylchedd. Mae’r gwaith hwn hefyd yn manteisio yn uniongyrchol ar nodweddion a ddiogelir sef **Oedran.**

## Canolfan Ieuenctid y Rhyl

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi cynlluniau i adnewyddu Hen Gaffi Rhodfa’r Dwyrain i greu gofod diogel newydd i gefnogi pobl ifanc. Bydd y Ganolfan Ieuenctid modern yn creu amgylchedd cyfforddus i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a chael mynediad at gymorth wedi’i deilwra drwy weithgareddau a hyfforddiant. Mae cynlluniau’n cynnwys gofod ar gyfer ardal ymlacio, ardal gemau, hyfforddiant a chegin aml-orsaf ar gyfer hyfforddiant a sgiliau byw’n annibynnol, yn ogystal â gofod therapiwtig pwrpasol. Bydd cymorth wedi’i dargedu ar gael i unigolion drwy sesiynau un i un, cyfarfodydd grŵp a thrwy gyrsiau achredededig a gwaith partneriaeth, gyda’r nod o helpu unigolion i gyflawni eu potensial. Disgwylir i’r gwaith adnewyddu ddechrau yn gynnar yn 2022.

Drwy **gydweithio** gyda’n partneriaid ac **integreiddio** ein huchelgais i bobl ifanc lwyddo, bydd y cyfleuster newydd yn ein helpu i ymgysylltu a **chynnwys** pobl ifanc, eu cefnogi yn eu dyheadau **hirdymor,** a gobeithio **atal** unrhyw ymddieithrio oddi wrth hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau. Mae’r gwaith hwn yn elwa nodweddion a ddiogelir sef **oedran**, ac mewn rhan amddifad o’r sir, helpu’r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

## Cegin Ysgol Newydd

Mae cegin ysgol fodern newydd wedi cael ei ddarparu ar gyfer Ysgol Llanbedr. Nid oedd y gegin flaenorol yn addas i’r diben, heb ddigon o gyfleusterau storio addas na digon o offer. Mae’r ardal bellach wedi cael ei ehangu a’i foderneiddio’n gyfan gwbl gyda llawr a tho newydd, offer cegin arbed ynni ac ystafelloedd storio. Mae’r gwaith adeiladu a’r cyfarpar wedi cael ei gomisiynu i ganiatáu ar gyfer paratoi bwydlen lawn unwaith eto ar y safle.

Bydd y gegin newydd yn helpu i fodloni anghenion yr ysgol yn yr **hirdymor** ac yn cefnogi’r ddarpariaeth o brydau maethlon ar gyfer disgyblion, ac **atal** unrhyw ddiffyg mewn darpariaeth. Bydd y prosiect yn elwa nodweddion a ddiogelir sef **oedran.** Bydd hefyd yn

helpu i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim, a fydd yn helpu'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

### Kick Start

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio wedi bod yn hyrwyddo cyfleoedd gwaith Kick Start sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i gael profiad gwerthfawr mewn amgylchedd gwaith a chael eu talu i wneud hynny. Gall hyn agor drysau i gyflogaeth pellach neu gyfleoedd eraill o fewn sectorau'r lleoliad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Drwy **integreiddio a chydweithio** gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae'r cynllun hwn yn ceisio **cynnwys** pobl ifanc mewn profiadau hyfforddi gwerthfawr a fydd yn elwa gyrfaoedd **hirdymor**, wrth **atal** diweithdra. Mae'r gwaith hwn yn elwa nodweddion a ddiogelir sef **oedran**, a helpu'r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

### Cefnogi busnesau lleol

Agorodd siop dros dro yng Nghanolfan Siopa Rhosyn Gwyn yn y Rhyl ym mis Tachwedd er mwyn amlygu siopau annibynnol yn yr wythnosau cyn Dydd Nadolig. Wedi'i drefnu mewn partneriaeth ag Antur Cymru a gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, roedd Caru Busnesau Lleol yn y Rhyl yn cynnig cymorth ar lawr gwlad i fusnesau lleol, gan ddarparu llwyfan ar gyfer busnesau newydd a busnesau bach a oedd yn dymuno rhoi cynnig ar fenter newydd gyda risg isel. Roedd cynhyrchwyr a oedd yn cyfranogi yn derbyn ystod amrywiol o gymorth, wedi'i gyllido gan ein tîm ymgynghori Busnes Cymru. Roedd y cymorth a gynigiwyd yn cynnwys cynllunio busnes a marchnata, hyblygrwydd digidol, cymorth AD a thendro. Yn ogystal â chynnig cymorth i fusnesau, roedd y ganolfan yn darparu cynnig manwerthu newydd ar gyfer Sir Ddinbych gan annog ymwelwyr i'r dref. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymgyrch Caru Busnesau Lleol ar ein gwefan.

Roedd y prawf **cydweithredol** hwn gydag uchelgeisiau partneriaid a busnesau lleol i **atal** diffyg twf a thyfu'r economi leol. Drwy **gynnwys** busnesau lleol fel hyn, rydym yn gobeithio annog twf o fewn eu mentrau ar gyfer yr **hirdymor.** Bydd y gwaith o fantais i'r rhai o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.**

## Cefnogwr Pobl Ifanc

Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Cyngor y cread o rôl Cefnogwr Pobl Ifanc. Bydd yr unigolyn a benodir ar gyfer y swydd yn chwarae rhan bwysig i weithredu fel arweinydd strategol cryf i godi a hyrwyddo materion pobl ifanc; gan ddadlau, cefnogi ac amddiffyn pryderon, materion ac anghenion pobl ifanc yn y sir.

Bydd gwaith y rôl newydd yn manteisio yn uniongyrchol ar nodweddion a ddiogelir sef **Oedran.**

## Iechyd Corfforaethol: Mae’r cyngor yn effeithlon, wedi’i reoli’n dda ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol

Llinynnau mesur: Derbyniol
Llywodraethu: Da

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Gyda’r adroddiad hwn, mae 43% o’n llinynnau mesur Cynllun Corfforaethol yn cyflwyno fel blaenoriaeth ar gyfer gwella, i lawr o 45% o’r adroddiad y llynedd. Mae dau o’n prosiectau corfforaethol ar hyn o bryd yn cyflwyno fel ‘dan fygythiad’ (Prosiect Archifau ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint ac Adeilad y Frenhines, y Rhyl), gyda 84% o brosiectau yn cael eu diweddaru’n rheolaidd gan reolwyr prosiect (mae hyn i lawr o 90% yn yr adroddiad diwethaf ar gyfer Gorffennaf i Fedi). Er gwybodaeth, mae’r prosiect Archifau yn adolygu dyluniadau ar gyfer yr un safle gyda’r golwg i gyflwyno cais cyllido newydd i Lywodraeth Cymru. Mae statws hyder darparu Cam 1 Adeilad y Frenhines o dan fygythiad oherwydd bod cost y cynllun yn llawer mwy na’r dyraniad cyllideb, ynghyd â chynnydd mewn costau dymchwel. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid ychwanegol.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru). Mae un adroddiad sicrwydd isel yn y cyfnod hwn gan archwilio allanol, yn cynnwys Eithriadau, Esemptiadau ac Amrywiadau o Reolau’r Weithdrefn Gontractau. Cafodd hyn ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd. Darganfu'r adolygiad fod nifer o enghreifftiau, ar draws yr holl wasanaethau lle nad oedd Rheolau’r Weithdrefn Gontractau wedi cael eu dilyn. Mae cynllun gweithredu sy’n mynd i’r afael â’r holl faterion risg a ganfuwyd, wedi cael ei ddatblygu, ac mae’r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi cytuno i adroddiad rheolaidd gael ei lunio i ddangos cydymffurfiad gyda Rheolau’r Weithdrefn Gontractau wrth symud ymlaen.

Yn yr adroddiad hwn, mae deg o fesurau gyda data newydd sy’n darparu cipolwg i ganfyddiadau budd-ddeiliaid o’r cyngor a’r ffordd mae’n cynnal ei fusnes. Cyflwynwyd naw

o’r dangosyddion hyn mewn ymateb i’r Canllawiau Statudol ar Berfformiad yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:

- Bodlonrwydd cyffredinol gyda’r Cyngor - 32% (i lawr o 40% yn 2018)
- Yn gweithio’n dda gyda’i bartneriaid - 62%
- Perthynas waith dda rhwng yr arweinwyr gwleidyddol a’r uwch reolwyr - 60%
- Yn rheoli’i berfformiad yn dda - 28%
- Yn rheoli ei risgiau a'i heriau yn dda - 30%
- Yn rheoli ei gyllid yn dda- 26%
- Wedi sefydlu cynlluniau hirdymor - 31%
- Yn trin ei weithlu’n dda - 35%
- Yn gwneud y defnydd gorau o’i asedau a’i adnoddau - 20%
- Yn caffael ei nwyddau a’i wasanaethau mewn dull teg ac effeithlon - 30%

Mae’r canrannau ar y cyfan yn siomedig, ond rhaid pwysleisio nad yw’r ffigyrau hyn yn adlewyrchiad o berfformiad, dim ond agwedd yn unig. Ni ddylai’r rhain fwrw cysgod dros waith da ac ymroddgar y swyddogion a gwasanaethau, ac mewn natur mae’r arolygon hyn yn denu tuedd negyddol. Er hynny, rhaid i ni wrando ar y negeseuon rydym yn eu derbyn gan ein cwsmeriaid a phartneriaid, ac rydym yn cydnabod y gellid gwneud mwy i wella dealltwriaeth gyhoeddus o’r ffordd mae’r cyngor yn gweithredu. Fodd bynnag, mae hyn yn gydbwysedd anodd. Er gwaethaf hyrwyddo’r arolwg ar draws ein safleoedd, rhwydweithiau, gwefan a’r cyfryngau cymdeithasol, cafwyd y nifer isaf o ymatebion nac unrhyw Arolwg Trigolion blaenorol gyda dim ond 374. Gan siarad gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru, mae hyn yn ddarlun cyffredin, mae cyfraddau ymateb i ymarferion ymgysylltu tebyg wedi bod yn isel hefyd. Bydd llai o ymwelwyr yn sgil Covid-19 wedi chwarae rhan yma. Mae’n rhaid i ni ofyn y cwestiynau hyn bob blwyddyn, felly yn 2022 byddwn yn archwilio ffyrdd gwahanol a gwell o ymgysylltu gyda’n budd-ddeiliaid.

Mae ein llinyn mesur ar amrywiant cyllideb (h.y. yr hyn sydd gennym ac a dderbyniwn yn erbyn yr hyn rydym yn ei wario) wedi cynyddu ychydig o 2445,000 ym Mehefin 2021 i 2731,000 ym mis Rhagfyr 2021. Mae cronfeydd wrth gefn y cyngor yn parhau ar £7.135 miliwn.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y cyngor (wedi’u cymryd fel cyfran o holl straeon newyddion am y cyngor) wedi codi o 2% rhwng Hydref a Rhagfyr, i 8%. Mae hyn

yn cynrychioli 19 stori negyddol allan o gyfanswm o 218. Fodd bynnag, mae canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi gostwng o 67% i 52%, gan ei roi yn ôl o fewn y trothwy 'Da'. Mae hyn yn cynrychioli 50 o gwynion wedi'u cadarnhau neu gadarnhau'n rhannol. Mae'r ffigwr hwn yn gyson ar gyfer yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, ac mae'r gyfradd a gadarnhawyd yn is nac ein cyfartaledd blynyddol ar gyfer 2020 i 2021 (60%).

Ym mis Rhagfyr 2021, roedd absenoldeb salwch yn 9.03 diwrnod, i fyny o 7.54 yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 6.61 diwrnod yn Rhagfyr 2020. Ym mis Rhagfyr 2021, roedd canran y staff a oedd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf yn 36%.

Roedd 40% o wariant y cyngor gyda chyflenwyr lleol yn ystod Hydref i Ragfyr. Roedd 87.67% o gontractau (dros £25,000 ac o dan £1,000,000) yn cynnwys manteision cymunedol. Cyflawnwyd un gweithgaredd caffael cydweithredol yn ystod y cyfnod hwn ac ni fethwyd unrhyw gyfleoedd caffael cydweithredol. Mae 8 o weithgareddau caffael cydweithredol ar y gorwel a bydd y rhain yn cael eu datblygu yn y misoedd nesaf.

Mae ein mesur olaf yn ystyried ymdrechion y cyngor i gefnogi trigolion i mewn i waith drwy leoliadau rydym yn eu cynnig o fewn y cyngor. Yn ystod Hydref i Ragfyr, fe wnaethom lwyddo i gefnogi 24 o leoliadau ychwanegol, gan ddod â'n cyfanswm blynyddol i 134. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar ein perfformiad o'r flwyddyn flaenorol, wedi'i gynorthwyo gan lacio cyfyngiadau Covid-19.

## Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Mae'r canlynol yn hunanasesiad yn erbyn y saith maes llywodraethu allweddol ac yn ceisio darlunio pa mor dda mae'r cyngor yn perfformio, sut ydym yn gwybod hynny (gan ddangos tystiolaeth os yw ar gael) a beth allwn ni ei wneud i wella.

### Cynllunio Corfforaethol

Isod mae camau gwella sydd wedi'u canfod i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes hwn o lywodraethu.

**Cytuno ar a gweithredu dull cyngor cyfan i'r Ffyrdd Newydd o Weithio.**

Cyhoeddodd ein prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio ddatganiad sefyllfa ym mis Tachwedd i fynd i'r afael â rhwystredigaeth a phryderon staff o ran pryd fydd yn bosibl dychwelyd i'r gwaith. Cyngor Llywodraeth Cymru ydi parhau i weithio gartref ble bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae cynlluniau mewn lle ar gyfer dychwelyd yn raddol lle bydd mwy o hyblygrwydd i awdurdodi presenoldeb yn y swyddfa, yn dibynnu ar nifer achosion Covid-19. Bydd union drefniadau ar gyfer dychwelyd i'r swyddfa yn amrywio gydag unigolion, timoedd a gwasanaethau, ond bydd cyfnod o 12 mis i werthuso patrymau gweithio yn y swyddfa ac asesu anghenion gosod swyddfa hirdymor.

Yn Rhagfyr, cyflwynwyd cynigion ar gyfer aelodaeth ffyrdd o weithio i'r Cyngor, gan gynnwys categorïau cyfarfod, a Phrotocol Cyfarfodydd Pwyllgor Hybrid. Cadarnhawyd hefyd y byddai pob aelod yn y dyfodol yn cael gliniadur a ffôn symudol, ond na fyddai iPads bellach yn cael eu defnyddio.

Mae'r tîm prosiect yn parhau i gwrdd bob mis ac mae cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan fewnol y cyngor. Mae gwaith yn parhau i ystyried goblygiadau Ffyrdd Newydd o Weithio ar ein polisïau AD, ond hefyd ar hyfforddiant ac arweinyddiaeth. Rydym hefyd yn archwilio opsiynau ar gyfer system archebu swyddfa newydd. Mae'r dulliau gwaith arfaethedig hefyd wedi cael eu cytuno gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a bydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth undeb ac aelodau. Mae Strategaeth Asedau Drafft hefyd wedi cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei rannu gyda'r UDA a'r aelodau yn y flwyddyn newydd.

**Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd erbyn Hydref 2022.**

Yn y cyfnod hwn, mae nifer o linynnau gwaith allweddol wedi dod ynghyd i lywio penderfyniadau ar y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2022 i 2027. Fe wnaeth y Tîm Perfformiad a Chynllunio Strategol gloi cam cyntaf ein Sgwrs y Sir, gan ddod â'n trafodaethau gyda holl ysgolion uwchradd yn y sir i ben. Rydym hefyd wedi cwblhau diweddariad o Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych, sydd allan ar gyfer ymgynghoriad tan Fawrth 14.

Cynhaliwyd dau weithdy gyda'r UDA a'r Cabinet ym mis Tachwedd i edrych yn gyntaf ar y gwersi a ddysgwyd gyda'r Cynllun Corfforaethol presennol a'i brosesau cefnogi, ac yn ail i ddadansoddi materion allweddol a ganfuwyd hyd yn hyn (drwy ein Sgwrs y Sir ac Asesiad

Lles). Yn seiliedig ar y trafodaethau hynny, roedd cynllun drafft yn canolbwyntio ar wyth thema wedi cael ei ddatblygu, a bydd yr ymgynghoriad ar hwn yn rhedeg o Ionawr 28 tan Fawrth 11. Y themâu yw:

- **Tai:** Darparu tai fforddiadwy o ansawdd da a digonol, gan fynd i'r afael yn benodol â'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy i bobl ifanc yr ardal.
- **Yr Economi:** Cymorth ar gyfer adferiad economaidd ar ôl y pandemig, gan gynnwys canfod a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i uwchsgilio trigolion a'u galluogi i gael mynediad at gyflogaeth ac incwm da.
- **Pobl Ifanc:** Darparu safonau rhagorol o addysg, drwy ddarparu cymorth a gofal ar gyfer holl ddysgwyr, gan gynnal iechyd meddwl a lles.
- **Cysylltu:** Cymunedau Cynnal isadeiledd ffyrdd o ansawdd da gyda chysylltiadau cludiant da a chysylltiad band eang da.
- **Yr Amgylchedd a'r Hinsawdd:** Diogelu ein hasedau naturiol ac amddiffyn ein cymunedau yn erbyn newid hinsawdd.
- **Mynd i'r Afael ag Amddifadedd:** Mynd i'r afael ag amddifadedd sefydledig a'i heriau cysylltiedig mae rhai o'n cymunedau yn eu hwynebu.
- **Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn uchel ei berfformiad:** Bod yn gyngor sy'n deg, tryloyw, yn perfformio'n dda, yn cynrychioli gwerth am arian ac yn ymateb i'w gwsmeriaid.

**Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Lansiodd y cyngor arolwg ym Medi i fodloni gofynion blynyddol newydd o ran cynnal arolwg i'n budd-ddeiliaid am ein perfformiad. Cynhaliwyd yr arolwg am chwe wythnos a rhennir y canlyniadau yn y dadansoddiad o linynnau mesur uchod ac yn y tablau isod. Bydd y canlyniadau hyn yn llywio ein Hunan-asesiad o Berfformiad nesaf yn yr haf. Bydd trefniadau ar gyfer Asesiad Panel yn cael ei drafod gyda'r cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2022. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chwe awdurdod Gogledd Cymru i gytuno ar drefniadau ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd, a chyflwynwyd adroddiad ar hyn i'r Cabinet ym mis Rhagfyr.

**Cynllun ar gyfer trefniadau cyllid UE newydd.**

Mae trefniadau gweithio a chapasiti rheoli prosiect bellach wedi cael eu sefydlu er mwyn helpu i symud ymlaen gyda gwaith i gefnogi cronfeydd Adferiad Cymunedol a Chodi'r Gwastad y DU, a hefyd edrych ymlaen at y Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd. Erbyn hyn mae'r cyngor wedi cyflwyno tri chais ar gyfer prosiectau cymunedol yn Sir Ddinbych i Gronfa Codi'r Gwastad y DU. Mae'r ceisiadau yn cynnwys Dyffryn Clwyd, Gorllewin Clwyd a De Clwyd, am gyfanswm o £55 miliwn ar draws yr etholaethau, a bydd £35 miliwn yn elwa Sir Ddinbych yn uniongyrchol. Bydd y prosiectau yn targedu adferiad canol tref ac amgylcheddol yn ogystal â gwella'r parth cyhoeddus, lles a chryfhau'r economi leol. Mae cais De Clwyd eisoes wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU, a disgwylir penderfyniad ar y lleill yn fuan yn y flwyddyn newydd. Ymhellach i'r Gronfa Codi'r Gwastad, mae mwy na £2.8 miliwn wedi cael ei sicrhau ar gyfer prosiectau cymunedol drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Mae prosiectau yn amrywio o gefnogi lles trigolion i ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd yn lleol. I gael rhestr o brosiectau llwyddiannus yn Sir Ddinbych, ewch i wefan Llywodraeth y DU .

**Cyngor Amrywiol**

Ym Medi cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad cyhoeddus a oedd yn ymrwymo i gefnogi hygyrchedd ac amrywiaeth mewn democratiaeth leol. O ganlyniad, cafodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dasg o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol cyn etholiadau llywodraeth leol 2022. Cyfarfu'r pwyllgor ym mis Tachwedd er mwyn dechrau ystyried materion a all gael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu. O ganlyniad, mae cynllun gweithredu drafft wedi cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei adolygu ym mis Ionawr.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Sicrhau fod cwestiwn yn cael ei ofyn ymhob Her Perfformiad Gwasanaeth o ran ymrwymiad i wasanaeth cwsmeriaid.**

Bydd yr ystyriaeth yn cael ei gyflwyno mewn papur yn crynhoi'r gwersi a ddysgwyd a chynigion ar gyfer Rhaglen Herio Gwasanaeth 2022, i'w gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Chwefror. Teimlir fod dull yr heriau yn ystod yr haf wedi gweithio'n dda yn sgil yr amserlen lai a llai o waith papur. Fodd bynnag rhaid rhoi ystyriaeth i sut mae data lefel gwasanaeth yn cael ei adolygu, gan fod hyn yn rhan bwysig o'n Fframwaith

Rheoli Perfformiad. Yn dilyn adolygiad Archwilio Cymru o Reoli Perfformiad, bydd cynigion hefyd yn cynnwys argymhelliad ar gyfer cyhoeddi data perfformiad lefel gwasanaeth.

**Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

**Uwch Dîm Arweinyddiaeth**

Mae newidiadau yn digwydd ar lefel Uwch Arweinyddiaeth y cyngor yn dilyn ymddeoliad staff, sydd wedi annog y Prif Weithredwr i ystyried sut mae'r awdurdod yn cael ei strwythuro. Mae hefyd yn gyfle gwych i ystyried sut mae'r cyngor wedi'i strwythuro wrth edrych ymlaen at ddarparu Cynllun Corfforaethol newydd. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw benderfyniad terfynol yn cael ei wneud tan ar ôl ethol y Cyngor newydd ym Mai. Bydd trefniadau dros dro yn cael eu gwneud yn y cyfamser.

## Cynllunio Ariannol

Isod mae camau gwella sydd wedi'u canfod i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes hwn o lywodraethu.

**Adroddiad Cyllid**

Mae'r Cabinet yn derbyn adroddiad cyllid bob mis sy'n rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf, yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai. Cyllideb refeniw net y cyngor ar gyfer 2021 i 2022 yw £216.818 miliwn. Rhagwelir mai'r sefyllfa ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol fydd gorwariant o £1.349 miliwn (i fyny o £1.179 miliwn yn y mis blaenorol). Mae amrywiad yng nghyllidebau gwasanaethau yn bennaf gysylltiedig â chynnydd o £182,000 yng nghostau lleoliadau preswyl yn y Gwasanaeth Addysg a Phlant nad oedd gan y Cyngor fawr o reolaeth drosto. Roedd cyllideb 2021 i 2022 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £2.666 miliwn fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.462 miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£690,000) wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.

- Mae arbedion o £0.781 miliwn hefyd wedi eu nodi sy’n newid darpariaeth gwasanaeth mewn rhyw ffordd (a chawsant eu rhannu mewn manylder gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn sesiynau briffio mis Rhagfyr).
- 1% (£0.733m) Targed effeithlonrwydd ysgolion o Gyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion.

Hefyd roedd angen penderfyniad ar gyfrifiad Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 i 2023, a gymeradwyodd y Cabinet.

**Cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon**

Mae gan y cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu datganiad o gyfrifon sy’n cydymffurfio â safonau cyfrifo cytunedig. 2020 i 2021 oedd y flwyddyn gyntaf yr oedd rhaid i’r awdurdod gwblhau cyfrifon grŵp, gan gynnwys cyfrifon o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. Mae’r amserlen ar gyfer cwblhau wedi ei oedi oherwydd y pandemig a'r terfyn amser ar gyfer cymeradwyo oedd Tachwedd 30, 2021.

Cafodd y datganiadau ariannol ar gyfer 2020 i 21 eu cymeradwyo gyntaf, yn destun archwiliad, gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo yn Awst. Yna cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, a’u hagor ar gyfer archwiliad cyhoeddus o Fedi 2 i Fedi 29. Yn olaf, dychwelwyd adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd er mwyn i’r aelodau etholedig gymeradwyo’r cyfrifon wedi’u harchwilio yn ffurfiol ar ran y Cyngor, gan gadarnhau eu bod wedi cael eu cynhyrchu mewn cydymffurfiad â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

## Rheoli Perfformiad

Isod mae camau gwella sydd wedi’u canfod i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes hwn o lywodraethu.

### Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â budd-ddeiliad ar berfformiad y cyngor.

Lansiwyd Arolwg Budd-ddeiliaid y cyngor ym Medi gan redeg am chwe wythnos. Cwblhawyd dadansoddiad ym mis Tachwedd, a rhannwyd y canlyniadau gyda’r Uwch Dîm Rheoli a’r Cabinet. Bydd canlyniad yr Arolwg yn helpu i lywio ein Hunan-asesiad o Berfformiad a gaiff ei rannu gyda rheolwyr ac aelodau ar gyfer craffu ym Mehefin, cyn

cymeradwyaeth y Cyngor ym mis Gorffennaf. Yn y cyfnod nesaf, bydd y Tîm Cynllunio Strategol yn gwerthuso pa wersi sydd wedi eu dysgu o'r arolwg ac archwilio opsiynau ar gyfer ymgysylltiad budd-ddeiliaid blynyddol, yn arbennig o ran y cwestiynau statudol newydd sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Rhoi eglurder i'r Uwch Dîm Rheoli ar rôl y Tîm Rheoli Prosiect.**

Mae adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn amlinellu datblygiadau blaenoriaeth ar gyfer cam cyntaf adolygiad y Swyddfa Rhaglen Corfforaethol erbyn Mehefin 2022. Mae hyn yn cynnwys:

- Ad-drefnu Verto, gyda'r golwg o alinio gyda gofynion Achos Busnes y Grŵp Buddsoddi Strategol;
- Sganio'r Gorwel gyda'r Uwch Dîm Rheoli;
- Sefydlu fframwaith caffael ar gyfer Rheoli Prosiect;
- Datblygu a monitro gwasanaeth cynghori ar gyfer rheolwyr prosiect ar draws y busnes.
- Sefydlu fforwm rheoli prosiect.

**Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

**Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid**

Fe wnaeth Craffu Perfformiad adolygu System Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y cyngor ym mis Tachwedd. Mae'r system wedi cael ei ddefnyddio ers 2018, ac er bod ei swyddogaeth yn esblygu, teimlir ei fod wedi symleiddio gweithdrefnau o fewn y cyngor, wedi gwella adrodd, ac yn fuddiol drwy fod yn hygyrch i gynghorwyr ar unrhyw amser. Cyflwynwyd hyfforddiant lle wnaeth 90% o'r staff gofrestru, ond dim ond 14% o gynghorwyr a gofrestrwyd. Ar adeg adrodd, o ran ymholiadau cynghorwyr, dim ond 10 oedd heb eu cyflawni, ac ar y cyfan, mae 84% o'r ymholiadau wedi cau - gwelliant sylweddol o berfformiad yn y gorffennol. Er hynny, mae meysydd ar gyfer gwella wedi cael eu canfod:

- Capasiti TGCh i ddatblygu'r system
- Mabwysiadu a chapasiti i gefnogi'r system.
- Hyfforddiant pellach ar gyfer staff a chynghorwyr.
- Mwy o graffu ar adroddiadau'r system gan wasanaethau.

Codwyd pryderon hefyd gan aelodau craffu o ran cywirdeb adroddiadau cynghorwyr, ond hefyd rhwystredigaethau o ran ymateb yn anghywir i ymholiadau neu gau ymholiadau yn rhy gynnar. Anogir cynghorwyr i godi unrhyw ddiffygion y maent yn eu profi gyda'u hymholiadau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid i'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid fel y gellir gwneud gwelliannau neu roi hyfforddiant mewn lle.

### Sefydlu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol dros dro er mwyn cynnwys y cyfnod rhwng Hydref 2021 i Hydref 2022. Mae'r Tîm Cynllunio Strategol wedi adeiladu fframwaith perfformiad i gefnogi'r cynllun i'n System Rheoli Perfformiad, Verto, a bydd cynnydd ar y cynllun yn cael ei gynnwys yn ein Hunan-asesiad o Berfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

## Rheoli Risg

Isod mae camau gwella sydd wedi'u canfod i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes hwn o lywodraethu.

### Deall y Parodrwydd i Dderbyn Risg

Er mwyn helpu dealltwriaeth y sefydliad, roedd ein hadolygiad diwethaf ym Medi yn rhoi canolbwynt penodol ar y parodrwydd i dderbyn risg, gan rannu astudiaeth achos ar Glefyd Coed Ynn. Mae'r Tîm Gweithredol Corfforaethol hefyd yn cynnal sesiynau rheolaidd i roi golwg fanwl ar risgiau penodol lle mae ein sefyllfa bresennol yn wahanol iawn i'n dyhead. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i wella dealltwriaeth o'r parodrwydd i dderbyn risg ymysg uwch reolwyr ac aelodau. Er hynny, mae'r Tîm Cynllunio Strategol yn cadw hyn dan adolygiad, gan ddarparu hyfforddiant pellach neu gymorth yn ôl yr angen. Bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i hyfforddi aelodau newydd ar ôl etholiadau mis Mai.

### Gweithred Herio Gwasanaeth: Sicrhau fod cofrestrau risg corfforaethol a gwasanaeth yn diffinio risgiau hinsawdd ac ecolegol ar y lefelau priodol.

Fel yr adroddwyd yn y cyfnod blaenorol, mae ein cofrestr risg corfforaethol yn cynnwys risg y gall "y cyngor fethu â dod yn gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030". Nodwyd y risg hwn yn "risg critigol", sydd tu allan i'n parodrwydd i dderbyn risg.

Cynhaliwyd sesiwn canolbwyntio ar risg gyda’r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Tachwedd 2021, i archwilio’r hyn y gallwn ei wneud i leihau’r bwlch yn ein parodrwydd i dderbyn risg. Penderfynwyd y dylem oddef ansicrwydd o amgylch y risg hwn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, ac erbyn hynny bydd gennym ddigon o wybodaeth (o ran costau, capasiti a’r canlyniadau rydym wedi’u cyflawni hyd yn hyn), i benderfynu os ydym yn debygol o ddod yn ddi-garbon net.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Ystyried darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn arbennig o ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw risgiau cysylltiedig ar gyfer y cyngor.**

Bydd diweddariad ar reoli’r risg hwn ar gael yn y cyfnod nesaf yn seiliedig ar y terfynau amser mewn perthynas â dechreuad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer Gogledd Cymru. Rhaid i swyddogaethau’r Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn weithredol o Fehefin 2022 ac nid yw trefniadau craffu wedi’u cadarnhau eto.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Mesur ein rheolaethau

Rydym wedi bod yn gweithio gydag Archwilio Mewnol a holl berchnogion risg i amlinellu dangosyddion a ellir eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd ein rheolaethau i reoli a lleihau ein risgiau. Rydym hefyd yn pennu gwaith archwilio mewnol ac allanol cynlluniedig sy’n rhoi sicrwydd i berchnogion risg o ran effeithiolrwydd ein rheolaethau.

### Cyfathrebu ein Risgiau

Mae crynodeb o’n cofrestr risg corfforaethol yn cael ei ddatblygu er mwyn ei ddefnyddio mewn cyfathrebiadau mewnol.

### Recriwtio a Chadw

Yn ystod yr adolygiad diwethaf, amlygwyd recriwtio a chadw staff fel maes risg penodol ar gyfer y cyngor. Nodwyd yr angen i annog recriwtio staff tai, iechyd a gofal cymdeithasol, personél, a gwastraff ac ailgylchu fel rheolaethau allweddol:

- Cynhaliwyd digwyddiad recriwtio i ddenu staff tai, iechyd a gofal cymdeithasol i weithio yn Ninbych a de Sir Ddinbych ym mis Tachwedd yn Neuadd y Dref Dinbych.

Trefnwyd hyn gan Gyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin. Roedd yn cynnig gwybodaeth am swyddi sydd ar gael a chefnogaeth i'r rhai sy'n dymuno ymgeisio ar y diwrnod. Roedd gwybodaeth am fuddion eraill o weithio neu wirfoddoli ar gyfer y sefydliadau a oedd yn bresennol. Roedd stondinwyr yn cynnwys Grŵp Cynefin yn cynnig gwybodaeth am rolau yn ei gynlluniau tai gofal ychwanegol, yn bennaf Awel y Dyffryn yn Ninbych; Sir Ddinbych yn Gweithio; Llywyr Cymunedol, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a'r Prosiect Gwirfoddolwyr Lleol; Darparwyr Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych; a darparwyr sydd ar hyn o bryd yn darparu gofal a chymorth yn ne'r sir i gynnwys Cartref Ni ac Abercare.

- Cynhaliodd y cyngor ddigwyddiad recriwtio ym mis Rhagfyr a oedd yn canolbwyntio ar wastraff ac ailgylchu. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd y Dref yn Ninbych, a dros ddwy sesiwn cafwyd cyfle i ddarganfod yr hyfforddiant a chyfleoedd gyrfaoedd oedd ar gael. Ein nod oedd denu unigolion 17 oed a hŷn sy'n mwynhau gweithio tu allan o fewn amgylchedd tîm cyfeillgar. Roedd staff ar gael ar y diwrnod i amlygu'r amrywiaeth o swyddi ar gael, o lefel mynediad i lefel gyrrwr LGV, ac i gefnogi pobl gyda'u ceisiadau.

## Cynllunio'r Gweithlu

Isod mae camau gwella sydd wedi'u canfod i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes hwn o lywodraethu.

**I ategu'r Ffyrdd Newydd o weithio, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddi, datblygu ac iechyd meddwl ar gyfer staff.**

Mae strategaeth a chynllun gweithredu i gefnogi'r prosiect ffyrdd newydd o weithio a'r rhaglen arweinyddiaeth, dysgu a datblygu, wedi cael eu datblygu. Mae sesiynau sefydlu, polisïau, canllawiau a hyfforddiant wedi cael eu hasesu ac mae gwaith wedi dechrau i wneud y newidiadau gofynnol.

Mae 70% o'r Cynllun Gweithredu Iechyd Meddwl wedi'i gwblhau. Cytunwyd y bydd Cefnogwyr Iechyd Meddwl hefyd yn cael eu recriwtio ar gyfer holl wasanaethau drwy'r cyngor staff. Yn ystod y cyfnod, rydym wedi bod yn paratoi arolwg lles a gaiff ei lansio yng Ngwanwyn 2022.

**Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth cydraddoldeb, i gefnogi dadansoddiad mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol.**

Mae Cydlynydd Craffu'r cyngor wedi adolygu gofynion craffu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol er mwyn sicrhau fod trefniadau craffu yn cydymffurfio â'r goblygiadau o dan y Ddyletswydd honno. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar draws gwasanaethau i'w gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i'n hasesiadau effaith ar les.

Mae gennym linyn mesur blynyddol (Canran y staff sydd â gwybodaeth monitro cydraddoldeb) a gyflwynwyd yn 2015 i fesur ein cynnydd i wella gwybodaeth monitro cydraddoldeb yr ydym yn ei gadw. Byddwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn ein hadroddiad nesaf. Disgwylir i adroddiad Dyletswydd y Sector Cyhoeddus nesaf gael ei gyhoeddi ym Mawrth 2022.

**Gwella ein rhaglen cynllunio gweithlu ac ystyried sut i gynllunio orau ar gyfer swyddi sydd angen lefel penodol o Gymraeg uwchben Lefel 1.**

Yn ystod y cyfnod hwn, fe gyflawnom a chwblhaom ein hadolygiad cynllunio gweithlu blynyddol gyda'r holl wasanaethau. Roedd ein dull wedi'i lywio gan drafodaethau am y risg corfforaethol newydd o ran recriwtio a chadw, a'r risg uwch o ran pwysau yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dros y cyfnod nesaf byddwn yn ymgynghori ar y cynllun gweithlu corfforaethol ac yn datblygu cynllun darparu i fynd i'r afael â chamau gweithredu gwasanaeth a chorfforaethol.

Bydd adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ystod 2022 gyda'r cynnig ar sut allwn gynllunio orau ar gyfer swyddi sydd angen lefel penodol o Gymraeg uwchben Lefel 1, a sut fyddai gweithredu yn gweithio yn ymarferol.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Ystyried gofynion adnoddau staff sy'n gysylltiedig â'r baich ychwanegol o reoli/cefnogi cyfarfodydd ar-lein, a nifer cynyddol o gyfarfodydd Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau, ac ystyried os oes angen camau gweithredu a pha gamau gweithredu sydd eu hangen.**

Mae pwysau ar adnoddau staff wedi cael ei gydnabod yn gorfforaethol ac mae cyllid ychwanegol ar gael yn y gyllideb newydd. Disgwylir y bydd dwy swydd newydd yn cael eu creu i gefnogi gweithgareddau llywodraethu democratiaeth ym mis Ionawr ac Ebrill 2022.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Sefydlu sefyllfa ddiweddaraf a lefel y risg mewn perthynas â GDG / dangosyddion asesiad risg sydd yn, neu wedi bod, yn flaenoriaeth ar gyfer gwella / derbyniol.**

Yn ein diweddariad diwethaf, fe wnaethom adrodd fod swydd dros dro am 6 mis yn cael ei chreu i fynd i'r afael â'r mater o gydymffurfio a gwiriadau GDG ac asesiadau risg (oni bai am weithwyr o dan Ofal Cymdeithasol Cymru neu AGC, yn sgil materion capasiti.) Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi wynebu anawsterau o ran recriwtio i'r swydd dros dro, ac felly rydym wedi bod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad drwy ganiatáu goramser o fewn y tîm AD. Mae cydymffurfiaeth bellach dros 90% ar draws y Cyngor.

**Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

**Astudiaeth Archwilio Cymru**

Rydym wedi cefnogi Archwilio Cymru gyda'u hadolygiad cenedlaethol o reoli asedau a chynllunio gweithlu. Disgwylir adroddiad erbyn Gwanwyn 2022.

**Gwasanaethau Cymorth Cymunedol**

Yn dilyn ymddiswyddiad Phil Gilroy, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, mae dwy swydd newydd dros dro wedi cael eu creu a phenodwyd: David Soley, Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, y Gwasanaethau Gweithredol, ac Ann Lloyd, Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, y Gwasanaethau Cymorth i Fusnesau.

## Asedau

Isod mae camau gwella sydd wedi'u canfod i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes hwn o lywodraethu.

**Strategaeth Rheoli Asedau**

Mae Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol Pum Mlynedd wedi cael ei ddrafftio. Bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno i Grŵp Rheoli Asedau'r cyngor yn y flwyddyn ariannol newydd, ynghyd â'r Cylch Gorchwyl newydd a fydd yn adlewyrchu ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac unrhyw newidiadau i gyfrifoldebau Aelod Arweiniol yn dilyn yr etholiad.

**Safonau Carbon Sylfaenol**

Ym mis Rhagfyr, mabwysiadodd y Cabinet safonau sylfaenol y bydd angen i holl adeiladau newydd annomestig y cyngor a phrosiectau adeiladu estyniadau neu adnewyddu mawr, lynu atynt, sy'n cynnwys targedau ar gyfer carbon corfforedig. Mae ein Cynllun Gweithredu Di-Garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol yn darparu map llwybr i gyflawni nod di-garbon net sy'n golygu gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau cyngor annomestig o leiaf 60% erbyn 2030, o'i gymharu â gwaelodlin 2019 i 2020.

Er bod camau cydlynol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â stoc adeiladau annomestig presennol y Cyngor, mae'n ymddangos na fydd y safonau rheoleiddio presennol yn ddigonol i sicrhau bod unrhyw adeiladau newydd neu estyniadau mawr yn cyfrannu ddigon at gyflawni nod di-garbon net y Cyngor.  Bydd cyflwyno ein safon ein hunain yn osgoi'r angen posibl am ôl-osod mesurau lleihau carbon yn nes ymlaen yn ystod gwaith adeiladu newydd a phrosiectau adeiladu estyniad/ailwampio mawr annomestig.

**Ymchwiliadau Perygl Llifogydd**

Mae Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Cyngor llawn, gan adolygu'r llifogydd sylweddol a ddigwyddodd ar draws Sir Ddinbych o ganlyniad i Storm Christoph ym mis Ionawr 2021. Roedd yr ymchwiliad er mwyn deall y rhesymau pam ddigwyddodd y llifogydd, y tebygolrwydd ohono'n digwydd eto ac i asesu p'un a ellir rhoi'r mesurau ar waith i leihau llifogydd yn y dyfodol.  Prif ffynonellau digwyddiadau o lifogydd Afon Clwyd, Afon Ystrad ac Afon Alyn.  Roedd pum lleoliad gwahanol wedi'u heffeithio gan lifogydd o brif afonydd. Roedd y rhain yn amrywio o gymunedau mawr fel Rhuthun a Dinbych (Brookhouse), i eiddo unigol o fewn cymunedau Llandyrnog, Llanrhaeadr a Llanarmon yn Iâl. Hefyd roedd llifogydd dŵr wyneb lleol yng nghymunedau Llanynys, Llanfair D.C, Llanelwy, Bodelwyddan a Dyserth, ac fe wnaeth Dyserth hefyd brofi llifogydd o ran o gwrs dŵr cyffredin sef Afon Ffyddion. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o gamau allweddol i'w cymryd gan y cyngor a'i bartneriaid er mwyn lliniaru unrhyw ddigwyddiadau llifogydd posibl. Yn ogystal â hynny, mae Grŵp Tasg a Gorffen Llifogydd wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac Undeb Amaethwyr. Disgwylir i'r Grŵp Tasg a Gorffen gyflwyno eu hadroddiad ffurfiol i'r Cyngor llawn cyn Ebrill 2022.

Hefyd cyflwynwyd adroddiad rheoli perygl llifogydd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref, yn amlinellu canlyniadau'r gydastudiaeth, a arweiniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), os gellir gwneud gwelliannau i reolaeth Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, a ger draeniau a charthffosydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu cyfrifoldeb pob sefydliad o ran rheoli llifogydd a lliniaru llifogydd. Ar ôl y llifogydd a effeithiodd ar rannau o'r Rhyl a Phrestatyn ym mis Gorffennaf 2017, cychwynnodd CNC adolygiad ar hydroleg a threfn reoli a chynnal a chadw Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn. Cytunodd CSDd a Dŵr Cymru i gefnogi CNC â'r prosiect, a fydd hefyd, gobeithio, yn rhoi gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut mae asedau pob sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig pan mae glaw trwm.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Datblygu cynnig i wella darpariaeth TGCh, diogelwch ffibr, parhad busnes, darpariaeth TGCh ysgolion a Sir Ddinbych digidol.**

Mae'r cynnig wedi cael ei gyflwyno i'r bwrdd cyllideb i ddechrau'r broses o ail-adeiladu capasiti o fewn TGCh i ddelio â'r materion a godwyd, mae hefyd wedi cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ac yn disgwyl am benderfyniad.

Mae darpariaeth ffibr ar draws y sir yn gwneud cynnydd drwy'r Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol, sydd yn parhau i fod â rhai materion darparu, a gwelliannau ffibr masnachol Openreach ym Mhrestatyn, y Rhyl a Dinbych. Mae darpariaeth yn ein hardaloedd gwledig yn parhau i brofi'n anodd, yn arbennig gan fod rhai ardaloedd yn ceisio gweithio drwy Bartneriaethau Ffibr Cymunedol Openreach. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Swyddog Arweiniol, Asedau Strategol o ran lleoliad ar gyfer ail storfa ddata unai yn y Rhyl neu Ddinbych i ehangu cadernid.

Mae Diogelwch Digidol yn parhau i fod yn fygythiad sylweddol i'r cyngor ac yn parhau i fod ar Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor. Mae Gwasanaethau TGCh a Digidol yn rhan actif o grwpiau lleol a chenedlaethol i liniaru, ac mae rhaglen dreigl yn ei le i sicrhau fod Diogelwch Perimedr Digidol y cyngor yn gyfredol ar yn gweithredu ar ei lefelau optimwm.

Mae nifer o ysgolion bellach yn derbyn cymorth TGCh yn uniongyrchol o swyddogaeth Gwasanaethau TGCh a Digidol y Sir. Mae amgylchedd cyfnewidiol iawn yn parhau o ran darpariaeth cymorth TGCh ysgolion gan 3ydd Parti. Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Prif Swyddog Digidol wedi argymell lawer gwaith y dylai ysgolion danysgrifio i'r gwasanaeth a gynigir gan dîm Gwasanaethau TGCh a Digidol Corfforaethol y Cyngor er mwyn lleihau'r

risg i ysgolion yn uniongyrchol. Rydym hefyd wedi amlygu'r cyfrifoldeb ar y Pennaeth pe byddent yn dewis darpariaeth allanol neu os nad oes ganddynt unrhyw drefniadau cefnogi yn eu lle.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Creu canolfannau mewn ardaloedd ar draws Sir Ddinbych lle mae cysylltiad band eang gwael, i gynorthwyo a galluogi cyfarfodydd o bell**

Dylai'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Lleol fod wedi'i gwblhau'n swyddogol ym Medi, fodd bynnag, mae gwaith angen cael ei gwblhau, ac rydym yn aros am gadarnhad swyddogol o estyniad y prosiect gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae rhan fwyaf o safleoedd corfforaethol wedi cael eu cwblhau, fodd bynnag mae nifer fechan o safleoedd sydd angen gwaith ychwanegol i fudo i ffibr cyflym iawn.

Mae safleoedd Cyngor Tref a Chymuned wedi bod yn fwy problemus yn sgil diffyg gwasanaethau eu hisadeiledd presennol. Er gwaethaf y problemau hyn, mae nifer o adeiladau wedi derbyn ffibr llawn ac ar hyn o bryd yn disgwyl i wasanaethau a chaledwedd ychwanegol gael eu harchebu, gosod a ffurfweddu. Mae Openreach wedi tynnu nifer o safleoedd Cyngor Tref o'u cwmpas, yn sgil cyfyngiadau amser prosiect a daearyddol amrywiol. Felly, efallai bydd goblygiadau yn cael eu codi o ran disgwyliad cwsmeriaid a realiti darpariaeth wirioneddol Openreach.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Gwaith i alluogi darpariaeth cyfieithu gyda meddalwedd Microsoft Teams**

Mae'r gweithgaredd yn profi rhwystrau, ond mae gwaith yn parhau yn genedlaethol i wneud cynnydd tuag at alluogi darpariaeth cyfieithu o fewn Microsoft Teams. Fodd bynnag, mae'r cam hwn yn dibynnu ar ymyrraeth gan Microsoft.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Creu cynllun i gefnogi partneriaid allanol a busnesau i symud ymlaen gyda'r rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol**

Yn y cyfnod hwn, mae gweithgarwch wedi dechrau i ddarparu cymorth i bartneriaid a busnesau i gyfrannu tuag at Raglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol, yn arbennig cynhaliwyd digwyddiadau cyhoeddus ym mis Tachwedd, gan gynnwys Brecwast Busnes. Yn ogystal â hyn, mae cynllun i ganfod mentrau newid ymddygiad ehangach ar gyfer 2022 i 2023

ymlaen yn cael ei ddatblygu a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2022. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan 1.5 aelod o staff cyfwerth â llawn amser y gwnaed cais amdanynt yn y gyllideb ar gyfer rolau dynodedig o fewn y Tîm Cyfathrebu.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Sicrhau fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi o bryniannau adeiladau blaenorol**

Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau i fod ar y targed gyda'r bwriad iddo gael ei weld fel busnes fel arfer. Mae'r tîm eiddo hefyd yn chwilio i adolygu'r broses derbyniadau er mwyn sicrhau ein bod yn dal unrhyw broblemau asbestos cyn gynted â phosibl.

## Caffael

Integreiddio gwella a diogelu bioamrywiaeth i'n prosesau caffael a'i yrru drwy fanteision cymunedol sy'n gwella'r amgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon isel. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth caffael newydd.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i ddarparu cymorth rheolaethol dros dro i'r Tîm Caffael yn absenoldeb Rheolwr Caffael. Mae problemau capasiti yn dal i fod ac mae'r rhain yn effeithio ar gyflymder y cynnydd mewn perthynas â'r camau gweithredu hyn. Er enghraifft, mae'r strategaeth caffael ddiwygiedig wedi cael ei oedi.

O safbwynt manteision cymunedol, mae trafodaethau gyda chyflenwyr o amgylch camau gweithredu syml yn parhau. Er enghraifft, trafodaethau am gysylltiadau i'r grid trydan yn hytrach na generaduron disel, o ran y defnydd o gerbydau trydan / hybrid ac ati.

Mae ein tîm caffael wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Newid Hinsawdd ar holl faterion yn ymwneud â Datgarboneiddio mewn Caffael, ond hyd yn hyn nid ydynt wedi bod yn rhan o weithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon isel. Bydd papur (Datgarboneiddio mewn Caffael) yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Newid Hinsawdd ym mis Chwefror 2022.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Polisi Caffael ar draws y cyngor**

Rydym wedi datblygu rhai sleidiau hyfforddi y bydd ein partneriaid busnes yn eu trafod gyda'r gwasanaethau maent yn eu cefnogi. Bydd partneriaid busnes hefyd yn atgoffa gwasanaethau yn barhaus, fel rhan o'u rôl, o'r polisi a phroses caffael.

**Sicrhau fod staff sydd ynghlwm rheoli contractau wedi'u hyfforddi'n briodol. Bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ar draws y cyngor i holl staff sydd ynghlwm rheoli contractau.**

Bydd Hyfforddiant rheoli contractau ar y defnydd o Proactis, y system rheoli caffael yn cael ei gyflwyno eto. Bydd Swyddog System newydd yn y swydd o Ionawr 2022, a bydd y deiliad swydd yn arwain ar ddarpariaeth o raglen hyfforddiant.

**Gweithred Archwilio Mewnol: Cynlluniau Gwaith i'r Dyfodol Caffael i gael eu llunio gan bob Gwasanaeth i gynnwys gweithgareddau a phrosiectau presennol neu sganio'r gorwel.**

Bydd y gweithgaredd newydd hwn yn cefnogi'r tîm Caffael i gefnogi gwasanaethau i reoli caffael yn effeithiol ac yn rhagweithiol. Disgwylir i waith ddechrau ar y gweithgaredd hwn yn y cyfnod nesaf.

**Gweithred Herio Gwasanaeth: Archwilio opsiynau hirdymor ar gyfer cynnal y Canolbwynt Buddion Cymunedol**

Mae datblygu model ar gyfer y Canolbwynt Buddion Cymunedol ar gyfer y dyfodol wedi dechrau, ond mae cynnydd wedi cael ei effeithio gan lwyth gwaith. Mae cyfraniad dan gontract i'r Canolbwynt yn cael ei gytuno mewn perthynas â chaffael Canolfan Asesu Plant Conwy a Sir Ddinbych. Mae prosiect Cronfa Adnewyddu Cymunedol llwyddiannus hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o gyfrannu tuag at weithgareddau a gyflawnir gan y Canolbwynt.

**Caffael Argraffwyr**

Yn ei [gyfarfod ym mis Hydref](#) , cymeradwyodd y Cabinet yr ychwanegiad o gyflenwyr newydd i'w Fframwaith System Prynu Ddeinamig Newydd. Roedd hyn er mwyn sicrhau fod y cyngor yn derbyn gwasanaethau dylunio ac argraffu o ansawdd rhagorol, a drwy

gystadleuaeth gynyddol, darparu’r gwerth am arian orau bosibl. Mae ein Fframwaith Dylunio Graffeg ac Argraffu yn cael ei rannu gyda Chyngor Sir y Fflint, a heb ei ddiweddaru ers 2017, felly roedd yn amserol i ail-ymweld â hyn er mwyn cynnwys cyflenwyr newydd sydd wedi cael eu gwerthuso. Bydd y diweddariad hwn hefyd yn darparu cyfleoedd i fwy o gwmnïau lleol gael eu cynnwys yn ein fframwaith. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda’r Tîm Datblygu Busnes ac Economaidd i ymgysylltu gyda chwmnïau lleol er mwyn eu cynnwys yn y fframwaith newydd.

## Llinynnau mesur blynyddol neu ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2021

| Teitl | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 15 | Adroddiad nesaf Mawrth 2022 | Amherthnasol. Cyfrif yn unig |
| Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr ar gyfer merched - **wedi’i feincnodi’n lleol** | -9.7 | -13.5 | Rhagorol |
| Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy’n ferched - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 79.1 | 79.9 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Presenoldeb aelodau (cyfredol ac a ddisgwylir), hyd yn hyn yn y flwyddyn - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 79 | 89 | Da |
| Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy’n cael ei allyrru a’i amsugno gan y cyngor (ac eithrio’r gadwyn gyflenwi) - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 14,030 | 10,277 | Rhagorol |

**Data 2018 i 2022**

| **Teitl** | **2018 i 2019** | **2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r cyngor (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 40 | 32 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Partneriaid sy'n cytuno fod y cyngor yn gweithio'n dda gyda nhw (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 62 | Da |
| Cynghorwyr a gweithwyr y cyngor sy'n cytuno fod perthynas weithio dda rhwng arweinwyr gwleidyddol a'r uwch dîm rheoli (5) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 60 | Derbyniol |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 28 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn rheoli ei risgiau a heriau'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 30 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 26 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod gan y cyngor gynlluniau hirdymor yn eu lle (5) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 31 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn trin ei weithlu'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 35 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac adnoddau (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 20 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

| Teitl | 2018 i 2019 | 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a theg (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd i 2021 | 25 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |

## Llinynnau mesur chwarterol neu ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Mesurau Cynllun Corfforaethol sy'n dangos 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 49 | 49 | 41 | 45 | 43 | Derbyniol |
| Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiect sydd 'dan fygythiad' - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 1 | 2 | 2 | 2 | Derbyniol |
| Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri | 90 | 94 | 96 | 90 | 84 | Derbyniol |

| **Teitl** | **Chwarter 3 2020 i 2021** | **Chwarter 4 2020 i 2021** | **Chwarter 1 2021 i 2022** | **Chwarter 2 2021 i 2022** | **Chwarter 3 2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | | | |
| Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data<br><br>Bob chwe mis | 55 | Dim data<br><br>Bob chwe mis | 62 | Dim data<br><br>Bob chwe mis | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Nifer cronnus o'r adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rhagorol |
| Nifer cronnus o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4 | 4 | 0 | 1 | 2 | Da |

| **Teitl** | **Chwarter 3 2020 i 2021** | **Chwarter 4 2020 i 2021** | **Chwarter 1 2021 i 2022** | **Chwarter 2 2021 i 2022** | **Chwarter 3 2021 i 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k) | 2,242 | -718 | 708 | 2,445 | 2,731 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |
| Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor (£k) | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |
| Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 12 | 24 | 10 | 6 | 8 | Derbyniol |
| Canran y cwynion allanol wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol dros y chwarter diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 52 | 57 | 62 | 67 | 52 | Da |

| Teitl | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 6.61 | 6.47 | 7.12 | 7.54 | 9.03 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data<br>Newydd i chwarter 4 | 45 | 44 | 42 | 36 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella |
| Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 34 | 36 | 33 | 38 | 40 | Rhagorol |

| Teitl | Chwarter 3 2020 i 2021 | Chwarter 4 2020 i 2021 | Chwarter 1 2021 i 2022 | Chwarter 2 2021 i 2022 | Chwarter 3 2021 i 2022 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data<br>Newydd i chwarter 1 2021 i 2022 | Dim data<br>Newydd i chwarter 1 2021 i 2022 | 75 | 88 | 88 | Rhagorol |
| Nifer cronnus o leoliadau profiad gwaith a gynigir o fewn y cyngor | 28 | 36 | 64 | 110 | 134 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig |

## Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi cael eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Y Prif Weithredwr i adolygu strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a gweithredu trefniadau dros dro nes cymeradwyo'r strwythur newydd yn dilyn yr etholiad.
- Adolygu mesurau un i un ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad.
- Datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer cynghorwyr newydd eu hethol.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Cymorth i Gyn-Filwyr y Lluoedd Arfog

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio'n cynnwys cymorth ar gyfer Cyn-Filwyr y Lluoedd Arfog. Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad i gyngor, arweiniad a chymorth arbenigol i helpu i dynnu'r rhwystrau sy'n atal cyn-filwyr rhag cael mynediad at Gyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant. Mae pob un o'u gwasanaethau yn rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyfeirio at ystod eang o wasanaethau eraill sy'n cefnogi cyn-filwyr fel gwasanaethau iechyd meddwl a grwpiau cefnogi.

Bydd y cymorth a gynigir gan Sir Ddinbych yn Gweithio, ynghyd â Chyfamod y Lluoedd Arfog y cyngor yn Sir Ddinbych yn manteisio'n uniongyrchol ar y nodweddion a ddiogelir sef **Oedran, Anabledd, Priodas a Phartneriaeth Sifil** a'r rhai sydd o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol.** Mae'r gwaith hwn yn dangos **cydweithio,** meddwl yn **hirdymor** ac **integreiddio** syniadau i gefnogi a diogelu cyn-filwyr. Mae hefyd yn ceisio **cynnwys** budd-ddeiliaid sydd â diddordeb ac **atal** unigrwydd.

## Diogelu

Ym mis Tachwedd, gwahoddwyd personél y cyngor i adnewyddu eu dealltwriaeth o ddiogelu drwy gwblhau'r modiwl E-ddysgu Diogelu diwygiedig. Mae angen i Gyngor Sir Ddinbych sicrhau fod holl bersonél yn adnewyddu eu hyfforddiant diogelu bob tair blynedd. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau fod personél yn gallu cydnabod arwyddion cam-drin neu esgeulustod ac yn hyderus i allu cymryd camau gweithredu cywir. Mae hyn hefyd yn galluogi personél i fod yn glir ac yn ymwybodol o'u dyletswydd diogelu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ac ymwybyddiaeth o'u harweinydd diogelu dynodedig yn eu gwasanaeth yn Sir Ddinbych.

Fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu yng Nghymru (Tachwedd), trefnodd Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru nifer o weithdai diogelu a deunyddiau gwybodaeth am ddiogelu i gael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.  Yn ystod yr wythnos cafwyd cyfle i ni gyd ddod at ein gilydd i godi ymwybyddiaeth am faterion diogelu pwysig, hwyluso trafodaethau a rhannu enghreifftiau o arfer orau.

Mae hyfforddiant cyngor a mentrau **cydweithredol** fel hyn yn cymryd camau gweithredu cywir i **atal** niwed i'n cymunedau yn yr **hirdymor**, ac yn ceisio ein hysbysu ni a'n **cynnwys** ni i ganfod materion diogelu. Bydd **integreiddio** gyda'r ymgyrch Diogelu Cenedlaethol yng Nghymru yn helpu cymunedau yn y pendraw.

## Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Cabinet Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Derbyniwyd yr asesiad fel un cadarn ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Hefyd fe dderbyniodd y Cabinet y gofyniad statudol i gyflawni asesiad o anghenion llety bob pum mlynedd ac i fodloni'r anghenion hynny. Mae'r ddogfen ddrafft wedi dod i'r casgliad fod angen wyth llain breswyl er mwyn bodloni anghenion dynodedig tair aelwyd a'u grwpiau teulu estynedig yn y sir, ond nid oedd tystiolaeth am yr angen ar gyfer safle tramwy parhaol yn sgil y niferoedd isel o wersylloedd diawdurdod, natur tymor hir y gwersylloedd, a'r diffyg galw am gyfleusterau o'r fath yn lleol. Argymhellwyd y dylid defnyddio dull o reolaeth yn seiliedig ar arfer gorau o bob rhan o'r DU i ymdrin â gwersylloedd diawdurdod, gan gydbwyso anghenion cymunedau teithiol a chymunedau lleol. Bydd aelodau etholedig a'r gymuned deithiol yn ymgysylltu i ddatblygu'r dull hwnnw yn Sir Ddinbych er mwyn adlewyrchu gofynion lleol.

Bydd y gwaith asesu yn cefnogi **Hil, Crefydd a Chred** yn uniongyrchol. Bydd **cynnwys** budd-ddeiliaid a chydweithio gyda phartneriaid a grwpiau gwahanol yn y ffordd hyn yn ein helpu ni i ddeall anghenion **hirdymor** y sir, ac **atal** unrhyw grŵp rhag wynebu mwy o **anfantais economaidd-gymdeithasol.**